# Dadansoddiad o adborth ar broses ymgynghori cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar drefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

EBRILL 2023

Llywodraeth Cymru

Awduron:
**York Consulting:** Philip Wilson, Hannah Russell a Martha Julings
**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant:** Natalie MacDonald, Dr Jane Waters-Davies, Dr Glenda Tinney, Dr Jessica Pitman, Natasha Young ad Paul Darby

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefnadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

**Gweithredu Gofynnol**
Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

**Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

**Manylion cyswllt**
Am fwy o wybodaeth:
Manylion yr awdur
E-bost: philip.wilson@yorkconsulting.co.uk

**Copïau ychwanegol**
Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennaeth yr ymgynghoriad mewn ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad:** Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

## CYNNWYS

**Tudalen**

**1 CYFLWYNIAD ........................................................................................ 1**

**2 CRYNODEB O YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD ........................................ 2**

**3 CANFYDDIADAU GWEITHDAI RHANDDEILIAID ........................................ 30**

**4 DADANSODDIAD THEMATIG CYFUNOL ................................................. 33**

# 1 CYFLWYNIAD

Comisiynwyd yr ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r dadansoddiad o adborth ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canfyddiadau o'r ymgynghori ar-lein ac o gyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid y sector. Cyflawnwyd yr ymchwil rhwng misoedd Hydref 2022 a Chwefror 2023.

## Cyd-destun

Caiff dysgu cynnar i blant 3 a 4 oed ei gyflwyno mewn ysgolion a hefyd rhai lleoliadau gofal plant a ariennir gan yr awdurdod lleol i gyflwyno addysg (lleoliadau meithrin a gyllidir nas cynhelir). Gall y lleoliadau hyn amrywio o feithrinfeydd dydd preifat i gylchoedd meithrin a chylchoedd chwarae sy'n darparu gofal sesiynol. Mae tua 10,000 o blant yn derbyn eu dysgu cynnar mewn tua 530 o leoliadau gofal plant mewn 20 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru[1].

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi bod ar waith o fis Medi 2022. Nod canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei gwricwlwm ei hun, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm – y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pobl plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Gan gydnabod bod lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn annhebygol o fod â'r capasiti, arbenigedd nac adnoddau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ym mis Ionawr 2022 i leoliadau ei fabwysiadu, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Datblygwyd y cwricwlwm trwy broses o gyd-awduro gan ymarferwyr, gan fanteisio ar arbenigedd o bob rhan o'r sector nas cynhelir, a chydag arbenigwyr mewn datblygiad plant ac addysg gynnar.

Ers mis Medi 2022, mae gan bob lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir ddyletswydd gyfreithiol i weithredu trefniadau asesu addas i gefnogi cynnydd dysgwyr ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyd-awduro trefniadau perthnasol i helpu ymarferwyr i gyflawni'r ddyletswydd hon. Diben y trefniadau oedd sicrhau bod plant mewn lleoliadau'n cael eu cefnogi i wneud cynnydd mewn ffyrdd sy'n addas i'w hanghenion a sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu arferion asesu sy'n gydnaws ag egwyddorion fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Cyhoeddwyd y trefniadau mewn fformat drafft ar 30 Medi 2022 a buont yn destun ymgynghori cyhoeddus am 12 wythnos. Bydd y trefniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2023.

Amcan yr ymchwil hwn oedd darparu adborth cyfoethog a manwl i Lywodraeth Cymru fel sail ar gyfer y gwaith o fireinio'r trefniadau ar ôl y cyfnod ymgynghori.

## Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r ymgynghori ar-lein, crynhoi canfyddiadau'r gweithdai a chyferbynu'r canfyddiadau o ddwy elfen yr ymchwil.

[1] Gwahoddiad i dendro gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2022

## 2 CRYNODEB O YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r 14 o gwestiynau'r ymgynghoriad. Er na all gynnwys pob sylw, mae'n ceisio cyfleu'r negeseuon allweddol.

Codwyd amryw o faterion nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â phwnc yr ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r materion hyn ond nid ydym wedi eu hystyried mewn unrhyw fanylder yn y crynodeb hwn.

Roedd cynnwys yr ymatebion amrywio'n fawr, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymdrin â mwyafrif y cwestiynau polisi allweddol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

Rhoddodd rhai ymatebwyr atebion manwl iawn, ac rydym yn ddiolchgar amdanynt. Er nad yw'n bosibl adlewyrchu'n llawn pob mater a godwyd, mae'r themâu allweddol a godwyd mewn ymateb i bob cwestiwn wedi cael eu crynhoi.

### Ynglŷn â'r ymatebwyr

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 61 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gallai unigolion gyflwyno eu hymatebion trwy holiadur ar-lein, e-bost neu drwy'r post.

Fe wnaeth cyfanswm o 61 o ymatebwyr gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein a oedd ar gael i'r cyhoedd trwy wefan Llywodraeth Cymru am gyfnod o 12 wythnos o 30 Medi hyd at 23 Rhagfyr 2022.

Y grŵp mwyaf o ymatebwyr oedd Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (AYBC) neu rai mewn swyddi cyfatebol iddynt (21). Cyfeirir at yr holl ymatebwyr hyn drwy gydol y ddogfen fel Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar neu AYBC.

Ymysg y lleill a ymatebodd oedd arweinwyr lleoliadau neu rai mewn swyddi cyfatebol (14), ymarferwyr mewn ysgolion (9), a staff o sefydliadau Ambarél (6). Roedd yr 11 o ymatebwyr yn y categori 'arall' yn cynnwys myfyrwyr neu academyddion, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, arolygwyr a chorff cofrestredig.

**Tabl 2.1: Dadansoddiad o fathau o ymatebwyr**


| Mathau o ymatebwyr | Nifer o ymatebwyr | % o ymatebwyr |
|---|---|---|
| Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar | 21 | 34% |
| Arweinydd | 14 | 23% |
| Ysgol | 9 | 15% |
| Sefydliad Ambarél | 6 | 10% |
| Arall (nodwch) | 11 | 18% |
| Cyfanswm | 61 | 100% |

Ffynhonnell: Data ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

**Cwestiwn 1.1: Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath?**

Fe wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr (44) nodi eu bod yn gweithio mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath. Ymatebwyr o ysgolion yn bennaf oedd yr ychydig a oedd yn weddill (17).

**Ffigur 2.1: Dadansoddiad o gwestiwn 1.1**





Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

### Cwestiwn 1.2: Os ydych, mewn pa fath o leoliad neu sefydliad ydych chi'n gweithio?

Mae mwyafrif yr ymatebwyr sy’n gweithio mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir neu’n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o’r fath yn gweithio o fewn awdurdod lleol (21), ac o’r rheini sy’n gweithio o fewn awdurdod lleol, Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar oedd y mwyafrif ohonynt (19). Dywedodd niferoedd llai eu bod yn gweithio mewn sefydliadau ambarél (5) a lleoliadau meithrin dydd preifat (5). Roedd ymatebwyr a ddewisodd y categori arall yn cynnwys arweinydd dysgu sylfaen, unigolyn o brifysgol ac ymatebydd o Dechrau’n Deg.

**Ffigur 2.2: Dadansoddiad o gwestiwn 1.2**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=44 o ymatebwyr

### Cwestiwn 1.3: Beth yw eich prif rôl?

Roedd ymatebion i gwestiwn 1.3 yn nodi bod y rheini a atebodd ‘na’ i gwestiwn 1.1 yn cynnwys swyddogion datblygu, ymgynghorydd, uwch ddarlithydd ac unigolyn yn gweithio mewn datblygu polisi. Roedd 6 allan o’r 9 ymatebydd o ysgol yn adnabod eu hunain fel arweinydd.


### Cwestiwn 1.4: Os nad ydych yn gweithio mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath, o ba safbwynt yr hoffech chi roi adborth?

Fe wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr nad ydynt yn gweithio mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir neu'n cefnogi darpariaeth addysg mewn lleoliad o'r fath adael adborth fel ymatebydd 'arall' (10). Roedd hyn yn cynnwys 7 o ymatebwyr o ysgolion. Rhoddodd dau ymatebydd adborth fel 'myfyriwr/academydd', ac roedd 5 ymatebydd arall na wnaeth nodi eu rôl.

### Cwestiwn 1.5: Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Atebodd ychydig dros ddau draean o'r ymatebwyr (41) 'ydynt', eu bod yn rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp.

**Ffigur 2.3: Dadansoddiad o gwestiwn 1.5**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

### Cwestiwn 2: Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori 'Trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir'?


Dywedodd pob un o'r 61 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein 'do', eu bod wedi darllen y ddogfen ymgynghori trefniadau asesu drafft.

## Cynllunio a chynnydd

### Cwestiwn 3.1: Ydych chi'n ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyfer trefniadau asesu mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Dewisodd bron bawb o'r ymatebwyr (57 allan o 61) 'ydym', eu bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithio ar gyfer trefniadau asesu.

**Ffigur 2.4: Dadansoddiad o gwestiwn 3.1**





Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=60 o ymatebwyr. Noder, mae'r ffigur sylfaen yn llai na chyfanswm ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan fod 1 ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

### Cwestiwn 3.2: I ba raddau y bydd y trefniadau asesu hyn yn cefnogi ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i asesu cynnydd plant mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?

Dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (45) y byddai'r trefniadau asesu yn 'cefnogi' ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

**Ffigur 2.5: Dadansoddiad o gwestiwn 3.2**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddodd cyfanswm o 45 o ymatebwyr sylwadau pellach i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Cytuno (31)

Gan amlaf, roedd ymatebwyr yn rhannu barn yn awgrymu bod y trefniadau asesu yn glir ac felly'n cefnogi ymarferwyr sy'n eu gweithredu.

> *"Mae'r trefniadau asesu wedi eu gosod allan yn glir mewn ffordd sy'n helpu ymarferwyr i arsylwi ac adrodd ar gyrhaeddiad plant. Maent yn rhoi strwythur clir ac enghreifftiau o pa arsylwadau y dylai ymarferydd fod yn eu gwneud a sut i gofnodi'r rhai mewn ffordd ystyrlon sy'n cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol ond hefyd yn adrodd i rieni a rhoi sylfaen i ddarparu ar gyfer camau nesaf y plant." AYBC*

Dywedodd ychydig hefyd fod y trefniadau asesu yn rhoi enghreifftiau clir i gefnogi ymarferwyr wrth arsylwi ac asesu'r plant. Roedd eraill yn awgrymu bod y trefniadau'n fwy cyfannol na'r arferion presennol, ac felly caniatáu ar gyfer asesu mwy unigoledig a chymorth i bob plentyn.

Canllawiau neu eglurder pellach (11)

Dywedodd nifer llai o ymatebwyr y byddent wedi hoffi mwy o eglurder yn y trefniadau. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn galw am ddarparu dull asesu neu strwythur ar gyfer asesiadau i gefnogi ymarferwyr.

Hoffai ychydig o ymatebwyr weld mwy o bwyslais ar y datganiad dyletswyddau cyfreithiol yn y ddogfen, o bosibl trwy deip trwm, er mwyn sicrhau bod pob darllenydd yn canolbwyntio ar hyn. Teimlai dau ymatebydd y gallai'r ymadrodd "nid oes rheidrwydd arnoch i fabwysiadu'r rhain" achosi dryswch, ac felly roeddent yn awgrymu ailadrodd y ddyletswydd gyfreithiol i gynnwys datganiad am leoliadau yn llunio eu trefniadau asesu eu hunain yn lle hynny.

Hyfforddiant a chymorth (10)

Dywedodd ymatebwyr y gallai fod angen hyfforddiant a chymorth pellach. Roedd rhai yn awgrymu hyn gan eu bod o'r farn y byddai ar bawb o'r staff a oedd yn ymwneud yn y broses ddysgu ac addysgu angen cyd-ddealltwriaeth gyffredin, na ellid yn eu barn hwy ei sicrhau gyda'r trefniadau yn unig. Roedd dau o'r ymatebwyr yn pwysleisio amrywiol lefelau o brofiad fel ffactor yn dylanwadu ar ddealltwriaeth ymarferwyr.

Roedd ychydig o sefydliadau ambarél hefyd yn galw am ymestyn hyfforddiant a chymorth i leoliadau a gynhelir ac ysgolion er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r asesiadau blaenorol a chynnydd dysgwyr newydd.

> *"Credwn y bydd angen dysgu proffesiynol i leoliadau a gynhelir ac ysgolion ar y cwricwlwm i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac ar y trefniadau asesu er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a chofnodion o gynnydd a rennir yn ystod cyfnodau pontio i blant o'r sector nas cynhelir yn cael eu parchu, eu deall a'u gwerthfawrogi wrth arwain eu cam nesaf ar hyd y continwwm dysgu". Sefydliad ambarél*

Sylwadau eraill (10)

Roedd sylwadau eraill a godwyd yn cynnwys anghytundeb cyffredinol gyda'r trefniadau arfaethedig. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys nad oedd yr ymatebwyr yn hoffi'r pwyslais

ar asesu i blant mor ifanc a diffyg cysylltiadau â llwybrau cynnydd, Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.


Roedd ychydig sylwadau'n ymwneud â diffyg argymhellion ar gyfer plant o dan 3 oed.

Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod hyn yn golygu na fyddai gan y plant ifanc hyn drefniadau asesu penodol ac y gellid colli'r hyn a ddysgwyd a chynnydd o ganlyniad i hyn.

**Cwestiwn 4: Pa mor glir yw hi y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r trefniadau hyn i'w helpu gyda'u hasesiadau wrth gynllunio cynnydd?**

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (36) eu bod yn meddwl ei bod yn 'glir' sut y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r trefniadau i'w helpu gyda'u hasesiadau wrth gynllunio cynnydd. Fe wnaeth pob ysgol (9) a'r mwyafrif o arweinwyr (11) a grwpiau 'eraill' (9) ddewis 'clir'. Roedd ymatebwyr AYBC yn fwy tebygol o ddewis 'aneglur' (8) neu 'ansicr' (7). Roedd sefydliadau ambarél yn fwy tebygol o ddewis 'ansicr' (4).

**Ffigur 2.6: Dadansoddiad o gwestiwn 4**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddodd cyfanswm o 39 o ymatebwyr sylw pellach i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Y diben a fwriadwyd yn glir (17)</u>

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r farn ei bod yn amlwg fod y dylid defnyddio'r trefniadau i helpu gydag asesiadau. Roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at agweddau allweddol o'r trefniadau gan gynnwys:

- Mae'n glir y gall asesiadau cychwynnol ddigwydd o fewn 6 wythnos.
- Mae'r trefniadau'n rhoi diffiniadau clir ac enghreifftiau o beth yw asesiadau.
- Mae'r ddogfen yn nodi'n glir yr asesiadau cychwynnol a'r angen am asesu dilynol i gynllunio ar gyfer cynnydd a'r camau nesaf i bob plentyn.

Awgrymai rhai ymatebwyr fod y trefniadau'n glir yn sgil strwythur y ddogfen, ei bod yn cynnwys enghreifftiau ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn tablau a phwyntiau bwled.

Adran cynnydd yn aneglur (12)

Dywedodd nifer o ymatebwyr AYBC ac un sefydliad ambarél nad oedd yr adran cynnydd yn glir. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys y farn nad yw'r trefniadau'n hawdd eu deall i ymarferwyr meithrin oherwydd yr iaith a ddefnyddir.

> *"Teimlwn nad yw'r adran ar gynnydd wedi cael ei ysgrifennu mewn ffordd ymarferol i ymarferwyr ei defnyddio, yn wahanol i'r cwricwlwm hawdd ei ddarllen a'i ddefnyddio i leoliadau meithrin nas cynhelir. Mae'r adran yn llawn o jargon ac yn 'eiriog' iawn, mae'n ffurfiol iawn ac ni fydd yn cyflawni'r diben i'r gynulleidfa a fwriadwyd." AYBC*

Yn ogystal, er bod ymatebwyr yn awgrymu bod y ddogfen yn dweud beth ddylai fod yn digwydd i helpu cynnydd, roeddent o'r farn nad yw'n rhoi digon o eglurder i ymarferwyr ar sut i gefnogi hyn.

> *"I helpu cynnydd fodd bynnag, mae angen llawer mwy o ganllawiau ar beth ddylai'r camau cynnyddrannol fod a chymorth gyda gwybodaeth o ddatblygiad plentyn o fewn pob llwybr datblygiadol i ymarferwyr." AYBC*

Codwyd pryderon hefyd gan rai ymatebwyr y bydd cyfrifoldeb yn gorwedd gydag unigolion ym mhob lleoliad i sicrhau bod pawb o'r staff yn deall y trefniadau. Y teimlad oedd y byddai hyn yn cynyddu'r llwyth gwaith i'r unigolion hyn ac y byddai'n dibynnu'n fawr ar raddau eu dealltwriaeth.

Nodi cynnydd yn glir (8)

Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr yn mynegi barn fod y trefniadau'n nodi'n glir iawn sut mae cynllunio ar gyfer cynnydd. Roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu bod y trefniadau yn pennu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd i bob rhanddeiliad mewn pedwar maes allweddol. Roedd ymatebwyr yn canmol y defnydd o enghreifftiau ac o gael cynnydd mewn lle amlwg ar flaen y ddogfen.

> *"Mae'r canllawiau'n glir ac wedi eu hysgrifennu'n dda yn esbonio manteision asesu ac arsylwi da. Mae pob adran yn rhoi enghreifftiau o gynnydd i ymarferydd i weld lle gallai camau nesaf plentyn fod." AYBC*

Awgrymiadau (11)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a oedd yn cynnig awgrymiadau i addasu'r trefniadau yn awgrymu defnyddio ffeithluniau i wneud y cyswllt yn glir rhwng arsylwi a chynllunio ar gyfer cynnydd.

Roedd un neu ddau o ymatebwyr eraill yn awgrymu newidiadau i iaith a strwythur yr adran hon. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylid pwysleisio'r frawddeg "Dylai deall sut mae plant yn gwneud cynnydd lywio'r trefniadau asesu fel rhan o'n gwaith cynllunio a'n harferion". Roedd ymatebydd arall yn awgrymu cynnwys y canlynol:

> *"Mae cefnogi plant i wneud cynnydd wrth wraidd y cwricwlwm i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac mae'r trefniadau asesu hyn wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio fel rhan o'r cwricwlwm wrth gynllunio ar gyfer cynnydd".*


Roedd nifer bach o ymatebwyr yn holi hefyd sut y gellid datblygu'r trefniadau asesu drafft i'w defnyddio gyda darpariaeth gynradd mewn ysgol.

Roedd barn hefyd fod angen mabwysiadu natur gyfannol yr asesiadau gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys awdurdodau lleol. Y teimlad oedd bod awdurdodau lleol wed canolbwyntio o'r blaen ar asesiadau cyfunol i ddibenion cofnodi.

**Cwestiwn 5.1: Ydy hi'n glir sut y dylid rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith wrth wneud penderfyniadau am drefniadau dysgu a datblygu plant?**

Dewisodd dros ddau draean (43) o ymatebwyr 'ydy', mae'n glir sut y dylid rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith. Ychydig o dan chwarter yr ymatebwyr (15) a ddewisodd 'na', gan gynnwys arweinwyr (5), AYBC (3) a sefydliadau ambarél (3).

**Ffigur 2.7: Dadansoddiad o gwestiwn 5.1**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=58 o ymatebwyr. Noder: Mae'r ffigur sylfaen yn is na chyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan fod 3 ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

Rhoddodd cyfanswm o 41 o ymatebwyr sylwadau pellach i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Egwyddorion cynnydd yn glir (17)

Dywedodd rhai ymatebwyr fod yr elfen hon o'r trefniadau yn glir, gan gyfeirio'n benodol at sut mae asesu'n cysylltu ag egwyddorion cynnydd. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr hyn fod y ddogfen yn rhoi cyfoeth o wybodaeth sy'n glir i ymarferwyr.

Roedd ychydig o ymatebwyr a oedd, er eu bod yn datgan fod y neges gyffredinol yn glir yn y trefniadau, yn awgrymu nad oedd yn cael ei chyflwyno mewn ffordd rwydd ei deall.

Canllawiau neu eglurder pellach (13)

Roedd ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r egwyddorion cynnydd, gan eu bod o ddogfen y Cwricwlwm i Gymru, yn cyfateb â'r derminoleg a ddefnyddir yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir[2].

> *"Gan fod egwyddorion cynnydd yn gysyniad newydd i lawer o ymarferwyr, credwn fod angen mwy o esboniad o beth ydynt, ac mewn iaith y gall ymarferwyr ei defnyddio'n rhwydd." Sefydliad ambarél*

Yn ôl rhai, er bod y trefniadau'n rhoi llawer o wybodaeth, roedd angen i'r wybodaeth gael ei dorri i fyny a'i strwythuro yn ffurf pwyntiau bwled. Awgrymwyd y byddai hyn yn cyfyngu ar y risg o ddarllenwyr yn neidio dros symiau mawr o wybodaeth i ganolbwyntio ar y tablau.

---

[2] Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Arall (8)


Sylwadau eraill a godwyd gan ychydig o ymatebwyr:

- Awgrym y byddai angen am ddysgu a datblygiad proffesiynol i helpu gyda therminoleg ac arferion newydd a amlinellir yn y trefniadau.
- Awgrymu y dylid cyflwyno'r adran sy'n cynnwys egwyddorion cynnydd yn gynharach yn y ddogfen.

**Cwestiwn 5.2: Pa mor ddefnyddiol yw'r tabl sy'n dangos sut y gellir rhoi'r egwyddorion cynnydd ar waith er mwyn helpu i asesu trefniadau dysgu a chynnydd plant iau?**

Teimlai dros dri chwarter yr ymatebwyr (47) fod y tabl sy'n dangos sut y gellir rhoi egwyddorion cynnydd ar waith i helpu trefniadau asesu yn 'ddefnyddiol'. Roedd hyn yn gyson yn fras ar draws y grwpiau. Llai na chwarter yr ymatebwyr a ddewisodd 'ansicr' (7) neu 'ddim yn ddefnyddiol' (6).

**Ffigur 2.8: Dadansoddiad o gwestiwn 5.2**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=60 o ymatebwyr. Noder, mae'r ffigur sylfaen yn llai na chyfanswm ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan fod 1 ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn..

Rhoddwyd sylwadau pellach gan 50 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Cadarnhaol (41)

Roedd ymatebwyr yn trafod trefn gyffredinol a fformat y tablau, gan ddweud yn gyffredinol fod y drefn yn ddefnyddiol, clir a chryno ac yn ei gwneud yn hawdd i ddarllenwyr gael at wybodaeth ac enghreifftiau perthnasol.

> *"Mae egwyddorion cynnydd wedi cael eu torri i lawr i'r hyn mae'n edrych i blant 3-4 oed sy'n ei gwneud yn glir iawn i ymarferydd." Arweinydd*

Soniodd ychydig o ymatebwyr fod yr iaith a ddefnyddir yn y tablau, law yn llaw â'r strwythur wrth ddefnyddio pwyntiau bwled, yn gwneud y tablau'n haws eu defnyddio nag agweddau eraill o'r trefniadau.

Gwnaed sylwadau cadarnhaol am y golofn 'sut beth yw hyn'. Roedd yr ymatebwyr hyn yn canmol y defnydd o enghreifftiau penodol i blant 3-4 oed. Roeddent yn dweud y byddai'r enghreifftiau hyn yn helpu ymarferwyr gydag asesu ac arsylwi ar blant o'r oedran hwn gan eu bod yn rhoi

meincnodau. Dywedodd rhai fod yr enghreifftiau hefyd yn creu cyswllt clir ag egwyddorion cynnydd, gan roi gwell dealltwriaeth o'r egwyddorion i ddarllenwyr.

Iaith a ddefnyddir (9)

Roedd ychydig o ymatebwyr yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn y tablau. Roeddent yn teimlo nad yw'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn cyfateb â'r hyn a ddefnyddir yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn cyfeirio at 'Feysydd Dysgu a Phrofiad' yn y trefniadau. Roeddent yn dweud nad yw hyn yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac felly gallai achosi dryswch ac na fyddai'n cael ei weithredu gan ymarferwyr oherwydd diffyg dealltwriaeth.

> *"Mae'n ddefnyddiol, fy mhroblem i yw sut mae wedi'i ysgrifennu. Dw i ddim yn hoffi'r geiriad gan nad ydw i'n teimlo ei fod yn cyfateb â geiriad y cwricwlwm newydd. Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn y cwricwlwm newydd gymaint gwell ac yn llifo'n hawdd a does ganddyn nhw mo'r un teimlad." Arweinydd*

Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn deimlo bod y golofn ar y chwith yn aneglur ac yn rhy eiriog. Teimlent nad oedd yn glir ei bod yn cyfeirio at y cyfan o'r cwricwlwm 3 i 16 oed. Awgrymai rhai y gall hyn, ynghyd ag iaith a ddefnyddir o ddogfen y Cwricwlwm i Gymru, arwain at ddryswch, yn enwedig i ymarferwyr llai profiadol.

Soniodd nifer bach o ymatebwyr hefyd am anghysondebau mewn terminoleg a ddefnyddir, gyda'r rhan fwyaf o flychau yn y fersiwn Saesneg yn nodi 'What this looks like' tra bod y blwch terfynol yn darllen 'What this means'. Nid yw'r anghysondeb hwn i'w weld yn y fersiwn Gymraeg.

Canlyniadau anfwriadol (8)

Roedd ymatebwyr yn mynegi pryder ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y tabl sy'n dangos sut y gellir rhoi egwyddorion cynnydd ar waith, gan gynnwys:

- Risg y bydd ymarferwyr yn defnyddio'r tablau fel rhestrau ticio yn hytrach nag fel awgrymiadau o enghreifftiau.
- Awgrym y gall darllenwyr ganolbwyntio ar y tabl heb edrych ar yr esboniad a'r sail resymegol sy'n ei ragflaenu.

Amheuon am y golofn ar y chwith (8)

Roedd rhai ymatebwyr, AYBC yn bennaf, yn awgrymu bod y golofn ar y chwith yn ddiangen, dryslyd ac aneglur, ac felly y dylid cael gwared arni.

**Cwestiwn 5.3: Beth arall, os unrhyw beth, fyddech chi'n hoffi inni ei gynnwys yn y tabl?**

Atebodd cyfanswm o 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Newid strwythur a fformat (10)

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu newidiadau i strwythur a fformat y tablau. Yn aml, roedd yr ymatebwyr hyn yn galw am gynnwys lluniau esboniadol i amlinellu gwybodaeth yn glir.

Roedd rhai yn awgrymu newidiadau i eiriad pennawd y tabl i nodi'n glir fod y golofn ar y chwith yn ymwneud â'r ystod oedran 3 i 16 oed a bod y golofn ar y dde yn cynnwys enghreifftiau, na ddylid eu defnyddio fel rhestrau ticio.

Roedd ychydig o ymatebwyr yn awgrymu hefyd fod angen aileirio'r golofn ar y chwith gydag iaith haws i ymarferwyr ei defnyddio.

<u>Enghreifffftiau pellach (8)</u>

Gwnaed awgrymiadau gan rai ymatebwyr i gynnwys mwy o enghreifftiau o sut beth yw egwyddorion cynnydd yn ymarferol, gan gynnwys defnyddio astudiaethau achos neu ddolenni i fideos.

> *"Er y gall fod yn amhosibl cael rhestr hollgynhwysfawr o nodweddion i'w hadnabod yn y golofn 'Sut beth yw hyn', mae angen eglurder fel bod ymarferwyr, nad ydynt yn gyffredinol yn athrawon cymwysedig, yn gysurus wrth eu defnyddio ac y gallant benderfynu ar fesur gwrthrychol i asesu nad yw'n dibynnu ar ddehongliad yr unigolyn hwnnw o'r disgrifyddion bras a welir yn y tabl ar hyn o bryd." Sefydliad ambarél*

Teimlai ychydig o'r ymatebwyr y dylai enghreifftiau gynnwys y rheini sydd at anghenion dysgu ychwanegol a chanolbwyntio'n benodol ar sgiliau dyddiol sylfaenol.


<u>Dim (7)</u>

Dywedodd nifer bach o ymatebwyr nad oedd dim yr hoffent ei ychwanegu at y tablau.

**Cwestiwn 6: Pa mor ddefnyddiol fydd y trefniadau asesu i ymarferwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd (a nodir yn adran 4.3 o'r ddogfen ymgynghori)?**

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (37) yn teimlo y bydd y trefniadau asesu yn 'ddefnyddiol' i ymarferwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Roedd gan ymatebwyr arweinwyr (11) ac ysgolion (8) farn debygol. Roedd AYBC yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ddewis 'ddim yn ddefnyddiol' (8). Fe wnaeth 12 o ymatebwyr ddewis 'ansicr' gan gynnwys 5 AYBC a 3 sefydliad ambarél.

**Ffigur 2.9: Dadansoddiad o gwestiwn 6**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=60 o ymatebwyr. Noder, mae'r ffigur sylfaen yn llai na chyfanswm ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan fod 1 ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 45 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Defnyddiol (18)

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno bod y trefniadau'n glir wrth nodi disgwyliadau'r ddeialog broffesiynol sydd angen iddi ddigwydd er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

> *"Mae'r ddogfen yn ei gwneud yn glir fod angen i sgyrsiau ddigwydd rhwng lleoliadau [a] rhanddeiliaid er mwyn sicrhau pontio effeithiol a phrofiadau cyson."*
> *Ysgol*

Roedd ychydig o ymatebwyr yn awgrymu y byddai'r ddogfen yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ymarferwyr, ym mhob lleoliad, o ran pa gynnydd a ddisgwylir cyn pontio i ysgol gynradd. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod y trefniadau'n esbonio'n glir y dylai fod cyd-drafod rhwng ysgolion, rhieni a lleoliadau eraill i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu er mwyn sicrhau cynnydd.

Cyfyngiadau amser a chyllid (15)

Bu ymatebwyr yn trafod y goblygiadau o ran amser ac arian sy'n gysylltiedig â'r ddeialog broffesiynol arfaethedig. Rhoddwyd enghreifftiau lle byddai'n ofynnol i leoliadau wario mwy o arian ar rentu cyfleusterau adeiladau a/neu ar staffio er mwyn galluogi cyfarfodydd i ddigwydd.

Roedd sylwadau a roddwyd gan ymatebwyr yn pwysleisio bod staff yn aml yn gweithio shifftiau hir a bod llawer o leoliadau yn cau tua 6pm, nad yw'n amser delfrydol i drefnu cyfarfodydd gydag ysgolion a rhanddeiliaid eraill.

Roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd y byddai'n anodd wneud trefniadau am gyfarfodydd yn ystod oriau gwaith. Pwysleisiwyd bod rheolwyr yn cael eu cyfyngu gan gymarebau staff a'u bod yn wynebu heriau wrth recriwtio a chadw, sy'n lleihau'r gallu i ddefnyddio staff cyflenwi yn ystod cyfarfodydd. Roedd eraill yn esbonio y gallai cymarebau staffio a shifftiau hir olygu nad yw cyfarfodydd staff ond yn digwydd yn fisol, ac felly'n cyfyngu'r amser a dreulir ar y ddeialog broffesiynol a awgrymir.

> *"Mae'r gweithgarwch ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ddisgwyliadau anaddas ar ymarferwyr yn sgil amser, cyllid, ymrwymiadau gwaith eraill a llwyth gwaith o ofynion statudol eraill ee gweithredu'r cwricwlwm i leoliadau meithrin nas cynhelir a diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol."*
> *AYBC*

Iaith a ddefnyddir (8)

Dywedodd ychydig o ymatebwyr na fyddai'r iaith a ddefnyddir yn ddealladwy i holl staff lleoliad. Roedd awgrymiadau y gallai staff uwch a mwy profiadol ddeall, fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r pwysigrwydd fod pawb o'r staff yn gallu gweld a deall y trefniadau.

Teimlai un ymatebydd fod y defnydd o'r term "rhanddeiliaid perthnasol" yn llai eglur. Roedd ychydig yn awgrymu y dylid rhestru rhanddeiliaid yn lle hynny, gan fod gan bron bob lleoliad yr un rhanddeiliaid. Roeddent yn esbonio bod hyn yn un enghraifft lle gellid lleihau amwysedd a'r potensial am wahanol ddehongliadau.

Canllawiau pellach (8)

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai arnynt fwy o ganllawiau ynghylch trefnu deialog proffesiynol, gan gynnwys enghreifftiau.

Roedd rhai yn holi ai cyfrifoldeb y lleoliad, yr ysgol, neu'r awdurdod lleol oedd hwyluso a chefnogi cyfarfodydd er mwyn i'r ddeialog hon ddigwydd.

Awgrymai ychydig o ymatebwyr fod angen canllawiau pellach i amlinellu'n union pa weithwyr proffesiynol ddylai gael eu cynnwys. Roedd eraill yn codi cwestiynau ynghylch agweddau logistaidd diogelu amser i bob rhanddeiliad gymryd rhan.

> *"Er bod y trefniadau asesu'n nodi disgwyliad am sgyrsiau proffesiynol, nid yw'n glir sut y gellir gweithredu hyn mewn lleoliadau sy'n profi problemau staffio a llwyth gwaith. Os gellir neilltuo amser ar gyfer sgyrsiau proffesiynol o'r fath, yna bydd hyn yn ddefnyddiol, fodd bynnag nid yw'n ymddangos bod yr asesiadau ynddyn nhw'u hunain yn pennu sut y gellir sicrhau hyn." Arall*

<u>Rhannu gydag ysgolion (7)</u>

Roedd ychydig o ymatebwyr yn pwysleisio y dylid rhannu'r ddogfen gydag ysgolion gan fod llawer yn bryderus na fyddent efallai'n ymwybodol o'r trefniadau drafft. O ganlyniad, efallai nad ydynt yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i wahodd lleoliadau i gymryd rhan mewn deialog proffesiynol. Fe wnaeth un neu ddau o ymatebwyr amlygu hefyd mai mewn troednodyn yn unig yr amlinellir y cyfrifoldeb hwn gan awgrymu y dylai gael ei bwysleisio ym mhrif gorff y testun yn hytrach.

<u>Hyfforddiant a chymorth (6)</u>

Roedd rhai ymatebwyr yn galw am hyfforddiant a datblygiad perthnasol ar gyfer staff. Roeddent yn dweud y gallai deialog proffesiynol rhwng rhanddeiliaid fod yn gysyniad newydd i lawer o leoliadau, ac felly, byddai arnynt angen hyfforddiant ar sut i ymdrin yn effeithiol â chreu'r cysylltiadau hyn.

<u>Arall (4)</u>


Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y farn y gallai fod yn ddefnyddiol, gan y gallai fod angen diwygio'r trefniadau, cael cyfnod profi cyn cyhoeddi'r trefniadau terfynol. Roedd sefydliad ambarél yn awgrymu y gallai cyfnod profi o'r fath fynd ati mewn ffordd debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd wrt ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ddefnyddir nas cynhelir. Dywedodd eraill fod angen i arweinwyr ymddiried ym marn ymarferwyr yn ystod y ddeiaolog a awgrymir.

## Asesu cychwynnol a pharhaus

### Cwestiwn 7.1: Ydy hi'n glir bod asesu cychwynnol (adran 7) a pharhaus (adran 5.1) yr un mor bwysig â'i gilydd i gynnydd plant?

Fe wnaeth bron i dri chwarter yr ymatebwyr (45) ddewis 'ydy', mae hi'n glir bod asesu cychwynnol a pharhau yr un mor bwysig â'i gilydd i gynnydd plant.

**Ffigur 2.10: Dadansoddiad o gwestiwn 7.1**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 41 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Pwysigrwydd cyfartal yn glir (22)

Yn amlach na pheidio, roedd ymatebwyr yn awgrymu bod y trefniadau'n glir wrth nodi asesiadau cychwynnol a pharhaus fel elfennau allweddol o broses gyflawn o asesu. Roedd nifer o ymatebwyr yn pwysleisio eu bod yn gweld yr asesiadau arfaethedig fel proses barhaus yn gofyn am adolygu parhau, yn hytrach na phwyntiau asesu unigol.

> *"Mae pwysigrwydd asesu cychwynnol a pharhaus yn amlygu ei hun yn gryf yn y ddogfen, sy'n cadarnhau i ymarferwyr y rôl mae'r naill a'r llall yn ei chwarae yng nghynnydd dysgu plant. Mae'n hanfodol i ymarferwyr ddeall y broses asesu a'r cysylltiadau rhwng asesu a chynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol." AYBC*

Mwy o bwyslais ar asesu cychwynnol (12)

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod mwy o bwyslais ar asesiadau cychwynnol yn y ddogfen nag sydd ar asesu parhaus. Roedd ymatebwyr yn credu bod y swm mwy o wybodaeth sy'n ymwneud ag asesu cychwynnol yn cael yr effaith o roi mwy o bwysigrwydd iddo o fewn y ddogfen.

Angen mwy o bwyslais (7)

Er bod ychydig o ymatebwyr yn dweud bod y pwynt am y ddau yr un mor bwysig â'i gilydd yn cael ei wneud yn y ddogfen, roeddent yn teimlo y gellid amlygu neu bwysleisio hyn yn fwy. Roedd un neu ddau'n awgrymu y gallai'r frawddeg gael ei cholli'n hawdd fel arall gan ddarllenwyr.

Roedd eraill yn awgrymu defnyddio enghreifftiau i ddangos sut y gellir defnyddio asesiadau cychwynnol a pharhaus gyda'i gilydd i ddatblygu gwell darlun.

Arall (14)

Roedd sylwadau eraill a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:


- Y farn fod yr asesu cychwynnol a pharhaus arfaethedig yn debyg i'r hyn sydd ar waith eisoes.
- Cwestiynau ynghylch a fydd y graddfeydd amser a awgrymir ar gyfer asesu parhaus ar ôl asesu cychwynnol yn cael eu nodi yn y fersiwn derfynol.

- Awgrym fod ailadrodd gwybodaeth yn y ddogfen yn gwneud y pwyntiau'n llai clir ar y cyfan.
- Awgrymiadau i addasu'r drefn fel bod rôl arsylwi a'r ddau gam asesu yn cael ei nodi'n gyntaf ac wedyn yn cael ei ailadrodd ymhellach ymlaen yn y ddogfen, er mwyn pwysleisio eu pwysigrwydd.
- Pryder y gall ymarferwyr ac arweinwyr feddwl bod angen iddynt ddefnyddio hyd at 3 gwahanol ddogfen i gynllunio'n effeithiol ar gyfer cynnydd plant; y trefniadau asesu, y Cwricwlwm i Gymru a'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir.

**Cwestiwn 7.2: Yn eich barn chi, pa derminoleg sydd fwyaf defnyddiol wrth gyfeirio at yr asesiadau y mae'n rhaid eu cynnal o fewn 6 wythnos ar ôl i blentyn ddechrau cael addysg feithrin a ariennir?**

Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (37) 'cychwynnol' ar gyfer y derminoleg fwyaf defnyddiol i ddisgrifio asesiadau sy'n digwydd o fewn 6 wythnos i blentyn dderbyn addysg feithrin a gyllidir. Dywedodd bob sefydliad ambarél (6) a thri chwarter o AYBC (16) 'cychwynnol'.

**Ffigur 2.11: Dadansoddiad o gwestiwn 7.2**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=54 o ymatebwyr. Noder, mae'r ffigur sylfaen yn llai na chyfanswm ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan fod 7 ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn.

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 43 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Cychwynnol</u>

Roedd themâu a oedd yn cefnogi defnyddio'r term 'cychwynnol' fel a ganlyn:

- **Mae'n rhoi naratif newydd (19):** Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod y term 'cychwynnol' yn adlewyrchu newid mewn arfer, sy'n awgrymu naratif newydd o broses barhaus. Roedd rhai yn awgrymu bod y term yn arwyddo dechrau proses neu daith, a thrwy hynny'n dilyn camau yn hytrach na phwyntiau asesu ar wahân.

> *"Mae'r term 'cychwynnol' yn fwy cydnaws ag ethos y cwricwlwm, bydd yn fwy addas i fwy o leoliadau ac yn fwy cynhwysol o bob plentyn. Mae 'dechreuol' yn awgrymu bod asesu yn weithgaredd tasg a gorffen, yn hytrach na chontinwwm o ddysgu." Sefydliad ambarél*

- **Oedran cychwyn (10)**: Roedd eraill yn awgrymu bod 'cychwynnol' yn well term gan y gall plant gychwyn y lleoliad meithrin ar oedran iau, felly ni fyddai'r term 'dechreuol' yn addas. Roeddent yn awgrymu bod 'cychwynnol' yn fwy addas i gynrychioli cychwyn eu taith mewn addysg a gyllidir o 3 oed.
- **Cysylltiadau negyddol â dechreuol (8):** Roedd ychydig o AYBC yn cefnogi'r defnydd o 'cychwynnol', gan awgrymu y gellid cysylltu'r term 'dechreuol' ag arferion blaenorol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys sgorio, grisiau sgiliau a data nad ydynt yn gysylltiedig â'r trefniadau asesu newydd.

<u>Dechreuol</u>

Roedd sylwadau a oedd yn cefnogi defnyddio'r term 'mynediad' fel a ganlyn:

- **Clir a chyfarwydd (10):** Dywedodd rhai ymatebwyr fod yn well ganddynt y term 'dechreuol', gan resymu ei fod yn rhoi eglurder ar pryd mae angen i'r asesiad ddigwydd, sef, o fewn 6 wythnos o ddechrau mewn addysg a gyllidir. Roedd eraill yn awgrymu y byddai, oherwydd ei fod yn derm cyfarwydd, yn lleihau dryswch i ymarferwyr.


<u>Arall (6)</u>

Mynegwyd safbwyntiau eraill gan un neu ddau ymatebydd. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymu defnyddio'r term 'llinellau sylfaen cychwynnol' a'r farn fod y termau 'cychwynnol' a 'dechreuol' yn golygu'r un peth, felly nad oes wahaniaeth beth yw'r union enw. Roedd ychydig yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar y raddfa amser o 6 wythnos yn lle hynny.

**Cwestiwn 8: Ydy pwrpas yr asesu parhaus (adran 5.1) yn cael ei esbonio'n glir?**

Dewisodd dros dri chwarter yr ymatebwyr (48) 'ydy', bod pwrpas yr asesu parhaus yn cael ei esbonio'n glir. Dywedodd pob ysgol, y mwyafrif o ymatebwyr 'eraill' a 5 allan o'r 6 sefydliad ambarêl 'ydy'. Roedd AYBC ac arweinwyr ychydig yn llai tebygol o ddweud 'ydy', gyda 7 AYBC yn dweud 'na'. Dewisodd tri arweinydd ac un sefydliad ambarél 'na'.

**Ffigur 2.12: Dadansoddiad o gwestiwn 8**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 35 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Canllawiau a hyfforddiant pellach (17)

Awgrymai ymatebwyr fod angen canllawiau pellach ynghylch asesu parhaus. Dywedodd ymatebwyr yr hoffent gael enghreifftiau o asesu parhau, gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn na chaiff ei gategoreiddio fel asesu parhaus, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i ddarllenwyr. Roedd ymatebwyr yn awgrymu y byddai cynnig enghreifftiau yn gwella hyder ymarferwyr wrth benderfynu sut i gyflawni'r asesu parhaus hwn. Law yn llaw â hyn, roedd awgrymiadau i gynnwys lluniau neu ffeithluniau i helpu gwell dealltwriaeth a helpu sicrhau bod y ddogfen yn ddealladwy i bob ymarferydd.

Awgrym mewn sylwadau a godwyd gan ychydig ymatebwyr oedd, er bod y ddogfen wedi esbonio asesu parhaus, y byddai angen hyfforddiant pellach i ategu'r wybodaeth a roddwyd. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y byddai hyfforddiant o'r fath yn rhoi eglurder ar sut i gyflawni asesu parhaus.

Dangos continwwm a chynnydd (9)

Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod y trefniadau'n dangos yn glir y dylid defnyddio asesu parhaus i ddangos cynnydd yn barhaus heb yr angen am bwyntiau asesu dynodedig.

> *"Mae'n rhoi diffiniad clir iawn o beth yw asesu parhaus a beth nad ydyw (sef, nid rhestr ticio) ac yn dylid ei deilwra i bob plentyn, dangos eu cryfderau a meysydd i'w datblygu, a'i ddefnyddio i fesur y cynnydd mae plentyn yn ei wneud". AYBC*

Cyffredinol glir (7)

Roedd ymatebwyr eraill yn rhannu'r farn gyffredinol fod y trefniadau yn glir, heb gynnig enghreifftiau na rhesymau.


Arall (4)

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y farn na chaiff yr adran hon ei phwysleisio ddigon. Gwnaed awgrymiadau gan ychydig o ymatebwyr i gynnwys yr adran ar asesu ac arsylwi parhaus yn gynharach yn y ddogfen.

**Cwestiwn 9: Ydy rôl arsylwi wrth asesu yn cael ei esbonio'n glir?**

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55) 'ydy', mae rôl arsylwi wrth asesu yn cael ei esbonio'n glir.

**Ffigur 2.13: Dadansoddiad o gwestiwn 9**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 36 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Ydy (27)</u>

Gan amlaf, roedd ymatebwyr yn dweud bod y trefniadau yn glir ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol i ymarferwyr eu defnyddio. Fe wnaeth ychydig o'r ymatebwyr hyn dynnu sylw at y tabl yn esbonio beth ddylai ac na ddylai arsylwi fod fel ffordd dda o roi dealltwriaeth gyffredin rhwng lleoliadau a'i gilydd.

Dywedodd eraill fod y cynnwys yn addas ac yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir gan ddefnyddio enghreifftiau, a'r teimlad oedd y gallai ymarferwyr unieithu eu hunain â hwy a'u rhoi ar waith.

<u>Canllawiau a hyfforddiant pellach (6)</u>

Roedd ychydig o ymatebwyr y dylid cysylltu'r adran hon ag enghreifftiau o weithgarwch dan arweiniad athrawon neu hyfforddiant pellach a gynigir i helpu ymarferwyr i baratoi ar gyfer yr arsylwi hwn a'i integreiddio i arferion o ddydd i ddydd.

Roedd un neu ddau o ymatebwyr o'r farn hefyd y gallai ffeithlun fod yn ddefnyddiol i gefnogi'r adran hon.

<u>Iaith a ddefnyddir (5)</u>

Gwnaed ychydig o sylwadau yn awgrymu bod yr adran hon yn trefniadau yn llawn jargon ac nad yw'n adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yn nogfen gysylltiedig y cwricwlwm. Awgrymai ymatebwyr fod angen i derminoleg fod yn gyson drwy'r holl ganllawiau a'r llwyfannau fel bod yr wybodaeth yn hawdd ei deall i bob rhanddeiliad.

<u>Arall (8)</u>

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y farn fod arsylwi'n ffordd fwy naturiol o asesu plant ac yn un mae ymarferwyr eisoes yn gyfarwydd â hi.


Roedd un sefydliad ambarél yn galw am fwy o bwyslais yn y ddogfen na ddylai arsylwi ymyrryd â rhyngweithio plant yn y Gymraeg nac ymyrryd â'r gwaith o'u trochi ynddi.

Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn awgrymu hefyd y gellid cyfuno adran 6 o'r trefniadau gydag adran 5 er mwyn cael pontio di-dor, gan mai eu teimlad oedd fod yr adrannau ar wahân yn peri bod yr wybodaeth yn ymddangos yn ddigyswllt.

**Cwestiwn 10.1: Ydy pwrpas yr asesu cychwynnol yn cael ei esbonio'n glir?**

Dewisodd tipyn may na phedwar o bob pump (53) o'r atebwyr 'ydy', mae pwrpas yr asesu cychwynnol yn cael ei esbonio'n glir. Dewisodd pob ysgol a'r mwyafrif o AYBC, arweinwyr ac ymatebwyr eraill 'ydy'. Roedd sefydliadau ambarél wedi eu hollti, gyda 3 yn dewis 'ydy' a 3 yn dewis 'ansicr'.

**Ffigur 2.14: Dadansoddiad o gwestiwn 10.1**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 35 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Esbonio'n glir (20)</u>

Yn aml, roedd ymatebwyr yn dweud bod pwrpas yr asesu cychwynnol wedi ei amlinellu'n glir yn y ddogfen. Caiff sylwadau penodol a wnaed gan yr ymatebwyr hyn ynghylch y tablau asesu cychwynnol a pharhaus eu crynhoi o dan gwestiwn 10.2.

<u>Iaith a ddefnyddir (7)</u>

Rhoddwyd sylwadau gan ychydig o ymatebwyr ar yr iaith a ddefnyddir yn yr adran hon o'r ddogfen. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn rhannu'r farn y gallai'r derminoleg a ddefnyddir fod yn ddryslyd i ymarferwyr.

Roedd y newidiadau a awgrymwyd ar gyfer y derminoleg yn cynnwys:

- Dewis 'dylai' i 'rhaid', gan fod 'dylai' yn awgrymu bod dewis. Er enghraifft, dweud bod yn 'rhaid' i ymarferwyr ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio addysgu a dysgu.
- Cynnwys enghreifftiau er mwyn crynhoi gwybodaeth asesu gan ei fod yn rhy amwys ar hyn o bryd.
- Newid y penawdau i Ddatblygiad Cymdeithasol, Datblygiad Emosiynol, Cyfathrebu, Corfforol a Gwybyddol (i gynnwys rhifedd) i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau datblygu plant.

Arall (7)


Teimlai ychydig o ymatebwyr ei bod yn aneglur pa bryd y dylai asesu cychwynnol ddigwydd, gan fod rhai plant yn y lleoliad cyn eu bod yn 3 oed.

Roedd un sefydliad ambarél yn galw hefyd am esboniad pellach ynghylch y sail resymegol y tu ôl i'r meysydd asesu a ddewiswyd, yn ogystal â sut maent yn cysylltu â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a gyllidir nas ariennir.

**Cwestiwn 10.2: I ba raddau mae'r disgrifiadau yn yr adran ar asesu cychwynnol o gymorth i ymarferwyr o ran deall sut mae plant yn gwneud cynnydd?**

Teimlai dros dri chwarter yr ymatebwyr fod y disgrifiadau yn yr adran ar asesu cychwynnol naill ai'n 'ddefnyddiol' (40) neu'n 'ddefnyddiol iawn) (8). Roedd AYBC yn fwy tebygol o ddewis 'ddim yn ddefnyddiol (8) na'r holl ymatebwyr eraill.

**Ffigur 2.15: Dadansoddiad o gwestiwn 10.2**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 37 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Clir (21)

Dywedodd ymatebwyr fod y disgrifiadau'n glir, yn rhoi manylion digonol gydag enghreifftiau clir. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn fod yr wybodaeth yn hawdd ei deall ac wedi ei hysgrifennu mewn ffordd sy'n ddealladwy i ymarferwyr, waeth beth fo lefel eu profiad.

> *"Credwn fod y disgrifiadau yn effeithiol iawn wrth helpu ymarferwyr i ddeall y nodweddion y gallant eu gweld wrth i blant wneud cynnydd. Maent yn arbennig o ddefnyddiol i ymarferwyr sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ac i'r rheini sydd newydd gymhwyso." AYBC*

Canlyniadau anfwriadol (15)

Fel gydag ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau blaenorol, roedd ymatebwyr yn mynegi pryderon y gall ymarferwyr weld y disgrifiadau fel rhestr ticio.

> *"Mae'r disgrifiadau yn ddefnyddiol, fodd bynnag, oherwydd diffyg 'canlyniadau' i weithio tuag atynt, bydd rhai ymarferwyr yn eu defnyddio fel rhestr ticio – sy'n groes i neges y cwricwlwm." AYBC*

Dywedodd eraill fod risg i ymarferwyr ganolbwyntio gormod ar y disgrifyddion. I rwystro hyn, roedd awgrymu i gynnwys ffeithlun neu ddatganiad mewn teip trwm i dynnu sylw darllenwyr at bwrpas yr asesiadau.

Roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd y gallai'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd allgáu rhai plant a lleoliadau gan mai'r teimlad oedd eu bod ar lefel rhy uchel fel mannau cychwyn. Yn gysylltiedig â hyn, y teimlad oedd nad yw disgyblion ag anghenion addysg ychwanegol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol gan na fyddant efallai yn cyrraedd y cam 'cychwynnol'.

<u>Canllawiau neu eglurder pellach (7)</u>

Roedd ychydig o AYBC yn awgrymu pe na bai eglurder neu ganllawiau pellach y byddai angen i dimau ymgynghorol ddarparu hyfforddiant a chymorth ychwanegol i bwysleisio i ymarferwyr na fwriedir i'r tablau gael eu defnyddio fel rhestrau ticio.

Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn argymell cynnwys canllawiau i helpu ymarferwyr symud ymlaen i'r camau nesaf ar ôl asesiadu cychwynnol, i awgrymu sut y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi cynnydd a helpu dysgu a datblygu.

Roedd ymatebwyr eraill yn galw am fwy o eglurder o gwmpas pan fydd y 6 wythnos yn cychwyn. Roeddent yn gofyn a fyddai hyn o pan fydd plentyn yn troi'n 3 oed, pan dderbynnir cyllid neu o'u diwrnod cyntaf yn y lleoliad.

Teimlai un ymatebydd y dylai fod yn fwy eglur yn y trefniadau y dylai asesiadau cychwynnol fod yn cronni gwybodaeth a gasglwyd dros gyfnod o 6 wythnos, yn hytrach na ciplun.

<u>Awgrymiadau (4)</u>

Gwnaed awgrymiadau gan ychydig ymatebwyr, gyda phob un yn cynnwys:

- Mwy o bwyslais ar y frawddeg 'nid yw'r disgrifiadau'n gynhwysfawr ac ni fwriedir iddyn nhw gael eu defnyddio fel rhestr dicio'.
- Ychwanegu templed neu enghreifftiau o asesu cychwynnol.

**Cwestiwn 10.3: Pa wybodaeth arall, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi inni ei chynnwys fel rhan o'r disgrifiadau hyn?**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 36 o ymatebwyr.

<u>Cymorth neu enghreifftiau ychwanegol (11)</u>

Roedd y cymorth ychwanegol sydd ei angen a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Canllawiau i helpu ymarferwyr os nad yw plentyn yn cyrraedd y meini prawf 'i ddechrau'.
- Canllawiau i leoliadau sy'n gweithio gyda phlant o dan 3 oed.
- Cynnwys iaith fathemategol yn y ddogfen yn ymwneud â rhifedd, gan fod ychydig o ymatebwyr yn teimlo bod yr iaith a ddefnyddir yn rhy amwys.

Dim mwy i'w ychwanegu (8)

Roedd ychydig o ymatebwyr yn mynegi eu bodlonrwydd gyda'r disgrifiadau a ddarparwyd ac felly nid oeddent yn gweld yr angen am unrhyw wybodaeth bellach.

Dull cyfannol (7)

Roedd rhai yn awgrymu mai eu dewis fyddai cael gwared yn gyfan gwbl ar y tablau, yn sgil y perygl i'r rhain gael eu gweld fel grisiau sgiliau i gael eu hasesu yn eu herbyn.

Yr hyn a awgrymwyd gan ychydig o ymatebwyr oedd gan fod pob sgil wedi cael ei rhannu'n llawer o ddarnau ar wahân, nad yw'n gweddu â'r dull cyfannol a fwriadwyd. Roeddent yn awgrymu na fyddai cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn cael yr effaith a ddeisyfir o greu naratif cyfannol oherwydd byddai gan ymarferwyr wedyn ormod o wybodaeth i'w reoli.


Eglurder ynghylch tablau (6)

Roedd ychydig o ymatebwyr yn galw am eglurder pellach ar sut y dylai ymarferwyr wneud defnydd effeithiol o'r enghreifftiau yn y tablau.

**Cwestiwn 10.4: Ydy'r ffordd y mae'r disgrifiadau wedi'u gosod yn helpu ymarferwyr i lunio barn am gynnydd plant unigol?**

Dewisodd mymryn dros hanner yr ymatebwyr (31) 'ydy', mae'r disgrifiadau wedi'u gosod yn helpu ymarferwyr i union barn. Fe wnaeth cyfran uwch o ymatebwyr arweinwyr (10), ysgolion (7), ac eraill (7) ddewis 'ydy'. Roedd AYBC a sefydliadau ambarél yn llai tebygol o ddewis 'ydy', gydag 8 AYBC yn dewis 'na' a 7 AYBC yn dewis 'ansicr'. Fe wnaeth 5 allan o 6 sefydliad ambarél ddewis 'ansicr'.

**Ffigur 2.16: Dadansoddiad o gwestiwn 10.4**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=60 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 38 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

Canlyniad anfwriadol (17)

Gan amlaf, roedd ymatebwyr yn awgrymu bod y fformat pwyntiau bwled a thabl yn golygu bod perygl i'r disgrifyddion gael eu defnyddio fel rhestrau ticio, grisiau sgiliau a rhestr gynhwysfawr i ymarferwyr asesu plant yn ei herbyn, yn hytrach nag fel grŵp o enghreifftiau.

> *"Gellid dod i'r casgliad fod angen i wybodaeth gael ei gofnodi o dan bob disgrifiad. Mae angen gwneud pethau'n gliriach fod angen dull cyfannol o gofnodi cynnydd plant" Sefydliad ambarél*

Yn ôl ymatebwyr eraill, er bod pwrpas asesu cychwynnol yn cael ei amlinellu'n glir ym mhrif gorff y testun, teimlent fod y tablau yn tynnu sylw oddi wrth hyn gan y gallai darllenwyr ganolbwyntio ar y tabl o ddisgrifyddion yn hytrach na'r pwrpas cyffredinol.

Clir (10)

Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod yr wybodaeth a roddir yn gyffredinol glir. Y teimlad oedd bod yr enghreifftiau yn dangos cynnydd yn glir o'r hyn yw ar y cychwyn drwodd at yr hyn yw wrth iddo ddatblygu. Roedd rhai yn awgrymu bod yr enghreifftiau a roddir yn y tabl yn arbennig o werthfawr i ymarferwyr newydd a'r rheini sy'n newydd yn yr ystod oedran, gan fod ganddynt enghreifftiau sylfaenol i weithio oddi wrthynt.

Anghysondebau (9)

Fe wnaeth ychydig o ymatebwyr sylwadau ar yr anghysondebau rhwng y tablau yn y trefniadau, gyda rhai â llai o golofnau na'i gilydd. Roeddent yn galw am fwy o gysondeb yn nhrefn y tablau, gyda'r rhan fwyaf yn galw ar y bob tabl gael tair colofn ('Ar y dechrau', 'Wrth imi ddatblygu', ac 'Wrth imi barhau i ddatblygu').

Awgrymiadau (8)

Awgrym a wnaed gan ychydig o ymatebwyr oedd cyflwyno'r wybodaeth asesu ochr yn ochr â'r 5 llwybr datblygu, er mwyn cysylltu'n well â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a gyllidir nas cynhelir.

Roedd un neu ddau hefyd yn awgrymu defnyddio dull naratif yn hytrach na rhestr o enghreifftiau, neu gynnwys testun cyn yr enghreifftiau, er mwyn dangos na fydd pob plentyn efallai wedi cyrraedd y cam 'ar y dechrau' ac y gallai rhai fod wedi camu ymlaen heibio i hyn.

Roed awgrymiadau eraill yn cynnwys symleiddio yn hytrach nag ychwanegu gwybodaeth a'r defnydd posibl o ddulliau digidol i gofnodi asesiadau a all fod yn haws na sylwadau a ysgrifennwyd â llaw.

Arall (13)

Codwyd y sylwadau canlynol gan ddau ymatebydd:

- Y farn y dylai fod, yn hytrach nag un ddogfen trefniadau asesu, 2 ddogfen ar wahân – dogfen ganllawiau a "dogfen waith".
- Pryderon am faint o amser y gall cofnodi arsylwadau ac asesiadau ei gymryd.
- Barn fod yr iaith a ddefnyddir yn rhy gymhleth. Roedd enghraifft a roddwyd yn cynnwys bod y cwestiynau 'ystyried' yn rhy gymhleth.
- Awgrym i beri bod y derminoleb yn cyfateb â'r llwybrau datblygu.

**Cwestiwn 11: Beth arall sydd ei angen i gefnogi'r defnydd o'r trefniadau asesu yn ymarferol?**

Atebodd cyfanswm o 47 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Hyfforddiant (38)

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn y byddai hyfforddiant yn elfen allweddol wrth gyflwyno'r trefniadau asesu. Roedd sawl awgrym i'r hyfforddiant hwn ganolbwyntio ar dechnegau arsylwi, yn ogystal ag ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd deialog broffesiynol. Gwnaed un neu ddau o sylwadau hefyd y gallai fod ar ymarferwyr angen cymorth a hyfforddiant i ddeall sut mae'r llwybrau datblygu yn cyfateb â'r asesu yn sgil gwahaniaethau mewn terminoleg.

Roedd ychydig o ymatebwyr yn awgrymu cyflwyno pro-fforma i gofnodi gwybodaeth a hyfforddiant cysylltiedig, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson yn genedlaethol. Rhannwyd gwahanol farnau croes i'w gilydd ynghylch y dull cyflwyno ar gyfer yr hyfforddiant hwn. Roedd rhai yn awgrymu modiwl hyfforddiant Hwb, tra teimlai eraill y bydd cyflwyno wyneb yn wyneb yn well.

Roedd mwy o gytundeb ymysg ymatebwyr y dylai'r hyfforddiant fod yn fodel cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhanbarth a lleoliad. Roedd ychydig ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod hefyd gefnogaeth gyson i leoliadau gan asiantaethau perthnasol, awdurdodau lleol ac AYBC wrth gyflwyno'r trefniadau.

Ffeithluniau (10)

Roedd nifer o ymatebwyr yn awgrymu cynnwys ffeithluniau yn y trefniadau. Awgrymwyd na fyddai'r ddogfen efallai'n ymarferol i'w gosod i staff ei defnyddio ac y gallai fod yn anodd i ymarferwyr ganfod gwybodaeth allweddol. Awgrymwyd y byddai defnyddio ffeithluniau yn gwneud y ddogfen yn haws ei defnyddio gan fyrhau ei hyd hefyd.

> *"Mae'r fformat presennol yn drwm iawn o ran testun, felly byddai ffeithluniau a lluniau yn helpu gyda'r darllen. Crybwyllwyd hefyd fod y ddogfen wedi ei hysgrifennu mewn arddull ffurfiol iawn ar y cyfan gyda'r tablau yn cael eu hysgrifennu mewn modd symlach a mwy cyfarwydd." Sefydliad ambarél*

Canllawiau pellach (7)

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn awgrymu cyflwyno adnoddau ychwanegol i helpu gyda gweithredu. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys:

- Enghreifftiau o asesiadau cychwynnol a sut beth fyddai proffil plentyn.
- Enghreifftiau o astudiaethau achos o arferion da.
- Adnodd sy'n cysylltu'r llwybrau datblygu, meysydd dysgu a phrofiad a cham cynnydd 1.

Arall (11)


Roedd sylwadau eraill a godwyd gan un neu ddau ymatebydd yn cynnwys:

- Y farn nad yw 6 wythnos yn gyfnod digon hir i bob plentyn gael ei asesu.
- Galwadau am ddogfen fyrrach, er mwyn lleihau'r amser sydd ei angen i ddarllen a deall y trefniadau fel bod gan ymarferwyr fwy o amser i weithio gyda'r plant.
- Ceisiadau am ganllawiau pellach ynghylch ystafelloedd oedrannau cymysg sy'n cefnogi plant o dan 3 oed a sut i gyfathrebu gyda rhieni pan nad yw plant efallai'n cyrraedd y cerrig milltir.

**Cwestiwn 12: Allwch chi weld y trefniadau asesu hyn yn cefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws llwybrau datblygiad y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir?**

Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (35) 'gallaf', eu bod yn gallu gweld y trefniadau asesu yn cefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws llwybrau datblygu. Dewisodd mymryn o dan hanner 'na' (9) neu 'ansicr' (17). Roedd ymatebwyr AYBC yn llai tebygol o ddewis 'gallaf' ac yn fwy tebygol o ddewis 'na' (5) neu 'ansicr' (10).

**Ffigur 2.17: Dadansoddiad o gwestiwn 12**




Ffynhonnell: Data ymgymghoriad Llywodraeth Cymru, 2022. Sail=61 o ymatebwyr

Rhoddwyd sylwadau pellach gan gyfanswm o 42 o ymatebwyr i ategu eu hateb i'r cwestiwn hwn.

<u>Cysylltu'n dda (14)</u>

Roedd ymatebwyr yn awgrymu bod y trefniadau'n glir ac yn rhoi digon o enghreifftiau i gefnogi cynnydd plant ar draws y llwybrau datblygu.

> *"Dylai'r trefniadau hyn gefnogi cynnydd plant o fewn ac ar draws y llwybrau datblygu cyn belled â bod ymarferwyr yn eu gweld fel rhan o addysgu a dysgu ac nid fel ychwanegiad i'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, caiff hyn ei wneud yn glir drwy'r holl ddogfen hon". Arall*

<u>Angen cysylltiadau mwy uniongyrchol (12)</u>

Dywedodd ymatebwyr fod angen cysylltiadau mwy uniongyrchol rhwng y ddwy ddogfen. Teimlai rhai y gallai lleoliadau drin y ddwy ddogfen fel rhai ar wahân, ac felly asesu gan gymharu'r ddwy.

> *"Teimlwn y gellid cyfeirio at y llwybrau datblygu yn fwy amlwg a diamwys yn y ddogfen, yn enwedig o ran asesu a chynnydd parhaus ee dim ond un o'r pum egwyddor cynnydd sy'n cyfeirio at y llwybrau datblygu." AYBC*

Roedd ychydig o ymatebwyr yn awgrymu bod gwahaniaeth mewn naws a therminoleg a ddefnyddir yn y ddwy ddogfen, a allai ei gwneud yn anodd i ymarferwyr weld y cysylltiadau rhyngddynt. Teimlent y dylid cyfeirio at y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a gwau'r un derminoleg drwy'r holl drefniadau yn lle hynny.

Arall (6)

Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio canfyddiadau'r asesu i gefnogi cynllunio ac y dylid datblygu strategaethau cyson i gefnogi gweithredu ym mhob lleoliad.

## Y Gymraeg

**Cwestiwn 13: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r trefniadau asesu hyn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 43 o ymatebwyr.

Dim effeithiau niweidiol (12)

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu na fyddai dim effeithiau niweidiol na negyddol ar y Gymraeg gyda'r trefniadau asesu hyn.

Agweddau mwy cadarnhaol (10)

Roedd awgrym y byddai'r trefniadau newydd yn annog agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg a lleoliadau Cymraeg ymhlith rhieni a gofalwyr. Yn ôl rhai ymatebwyr, gan nad yw'r trefniadau newydd yn canolbwyntio ar fodloni meini prawf na grisiau sgiliau penodol, ni fydd plant yn 'sgorio' yn isel mewn lleoliad lle nad y Gymraeg yw eu hiaith gyntaf gartref.

Gofynion iaith yn aneglur (10)

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r trefniadau'n rhoi digon o eglurder ynghylch ym mha iaith y dylai plant gael eu hasesu os yw iaith y lleoliad yn wahanol i iaith eu cartref. Cyfeiriodd ychydig o'r ymatebwyr hyn yn benodol at asesu cychwynnol, gan ei bod yn bosibl na fydd y plentyn ond wedi cael ei gyflwyno i'r iaith hyd at 6 wythnos cyn hynny.

Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn fod y trefniadau arfaethedig yn creu risg y byddai lleoliadau Saesneg eu hiaith yn asesu yn Saesneg yn unig. Awgrymwyd bod angen i'r trefniadau ddatgan yn glir y byddai'n dal i fod angen i leoliadau Saesneg asesu'r Gymraeg hefyd. Dywedodd ymatebwyr y gall dryswch weithiau godi mewn sefydliad Saesneg pan nad yw ymarferwyr yn gwybod beth fyddai'r gofynion Cymraeg, os oes rhai o gwbl, trwy asesu.

Dim digon o gyfeirio at y Gymraeg (8)

Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi'r farn nad oes digon o gyfeirio at y Gymraeg yn y ddogfen. Roedd awgrymiadau i wella hyn yn cynnwys cael y Gymraeg fel llwybr dysgu ar wahân, cyflwyno elfennau Cymraeg i'r adran ar lythrennedd a chyfeirio'n benodol ar ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

Arall (7)

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys ansicrwydd cyffredinol ynghylch a fyddai unrhyw effeithiau ar y Gymraeg, gydag ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd darparu pob dogfen yn y Gymraeg ac awgrym i greu adnoddau i gefnogi'r ymarferwyr eu hunain â dysgu sgiliau Cymraeg.

**Cwestiwn 13a: Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 24 o ymatebwyr.

<u>Gofynion cliriach o ran iaith (7)</u>

Roedd ar ymatebwyr eisiau sicrhau fod gofynion iaith lleoliadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu gwneud yn glir. Roedd yr ymatebwyr hyn yn trafod yr angen i'r ddau fath o leoliadau fod yn ystyriol o iaith cartref y plant, gan heb sicrhau profiad o'r Gymraeg iddynt, a thrwy hynny ddiogelu pwysigrwydd y Gymraeg i blant, rhieni ac ymarferwyr.

<u>Adnoddau ar gael yn y Gymraeg (6)</u>

Dywedodd ymatebwyr y dylai dogfennau, adnoddau a hyfforddiant cael eu darparu'n barhaus yn y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn ddealladwy a chyson i bob ymarferydd a rhanddeiliad.

<u>Arall (9)</u>

Gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer creu adnoddau i gefnogi ymarferwyr sy'n dysgu Cymraeg, tra dywedodd eraill y byddai'n fuddiol recriwtio mwy o staff Cymraeg i'r sector. Roedd ymatebwyr eraill yn ansicr sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol.

**Cwestiwn 14: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r trefniadau asesu hyn gael eu llunio neu eu newid fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Atebodd cyfanswm o 26 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

<u>Cyfieithiad Cymraeg (8)</u>

Teimlai rhai ymatebwyr fod cyfieithiad Cymraeg y trefniadau yn llai clir a dealladwy na'r fersiwn Saesneg, oherwydd yr iaith fwy ffurfiol a ddefnyddir. Fel ffordd o liniaru hyn, awgrymwyd y dylai'r cyfieithiad Cymraeg gael ei ysgrifennu gan ymarferwyr Cymraeg.

> *"Nid yw'r iaith ffurfiol a ddefnyddir yn fersiwn Gymraeg y Trefniadau Asesu yn hawdd ei deall a byddai'n well pe bai'n cael ei hysgrifennu mewn Cymraeg bob dydd yn lle Cymraeg ffurfiol." AYBC*

<u>Angen cyfeirio mwy at y Gymraeg (6)</u>

Roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o gyfeirio clir a diamwys at y Gymraeg yn y trefniadau. Roeddent yn awgrymu y dylid ychwanegu adrannau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r Gymraeg, boed hynny'r sgiliau iaith y dylai plant gael profiad ohonynt neu sut i integreiddio'r Gymraeg i arsylwi ac asesu cyffredinol. Teimlai eraill y dylid integreiddio'r Gymraeg yn gliriach ag egwyddorion cynnydd ac asesu mewn llythrennedd.

> *"Y perygl o beidio â chrybwyll y Gymraeg yn benodol yw bod defnyddio'r Gymraeg yn dod yn docenistaidd, yn weithgarwch 'amser carped' i'r dosbarth cyfan ac nid rhywbeth sy'n llifo a chynyddu a datblygu dros amser." Sefydliad ambarél*

Gofynion clir o ran iaith (6)

Roedd ymatebwyr yn ailadrodd sylwadau blaenorol ynghylch yr angen am eglurder o ran ym mha iaith y dylai plant gael eu hasesu.

Adnoddau Cymraeg (5)

Roedd ychydig o ymatebwyr yn argymell y dylid darparu adnoddau'n ddwyieithog ac y dylid datblygu adnoddau i ddarparu enghreifftiau Cymraeg i ymarferwyr mewn lleoliadau Saesneg eu defnyddio gyda phlant.

Roedd ymatebwyr yn pwysleisio y dylai hyfforddiant fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda chyfleoedd clir i staff lleoliadau Saesneg gael profiad a chael eu trochi mewn dysgu Cymraeg.

Arall (5)

Roedd ychydig o ymatebwyr yn pwysleisio mai lle dogfen y Cwricwlwm i Gymraeg a'r llwybrau datblygu, yn hytrach na'r ddogfen hon, yw hyrwyddo'r Gymraeg.

**Cwestiwn 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â hwy, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi:**

Atebwyd y cwestiwn hwn gan gyfanswm o 30 o ymatebwyr.

Roedd llawer o sylwadau'n ailadrodd pwyntiau a godwyd o dan gwestiynau blaenorol, gan gynnwys sylwadau ynghylch:

- Diffyg cysondeb yn y derminoleg a'r arddull a ddefnyddir yn y trefniadau a dogfen y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.
- Yr angen am fwy o ddefnydd o enghreifftiau a ffeithluniau yn y ddogfen.
- Cyfieithiad Cymraeg y trefniadau yn fwy ffurfiol a heb fod mor hawdd ei ddeall na'r fersiwn Saesneg.

Yn ogystal, dywedodd ychydig o ymatebwyr na fydd y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir wedi cael cyfle i dreialu'r trefniadau asesu ar adeg y cyfnod ymgynghori, gan fod addysg gynnar yn cychwyn ym mis Ionawr mewn llawer o siroedd.

Roedd nifer bach o ymatebwyr hefyd yn galw am rannu'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a'r trefniadau asesu gyda'r sector addysg bellach, er mwyn sicrhau bod staff newydd gymhwyso yn gwybod a deall y gofynion.

# 3 CANFYDDIADAU GWEITHDAI RHANDDEILIAID

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gweithdai rhanddeiliaid a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ar ar-lein ledled Cymru ar y trefniadau asesu drafft ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

## Cyfranogwyr yn y gweithdai

Cafodd gweithdai eu cynnig i amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y sector gan gynnwys ymarferwyr a chynrychiolwyr o sefydliadau ambarél, awdurdodau lleol, cyrff rheoleiddio a sefydliadau trydydd sector eraill. Fe wnaeth 68 o gyfranogwyr gymryd rhan yn y gweithdai, gyda 33 ohonynt yn ymarferwyr. Cafodd y gweithdai eu cynnig wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda mwyafrif y cyfranogwyr yn dewis sesiynau ar-lein.

Cynigiwyd gweithdai wyneb yn wyneb yn y gogledd (Wrecsam), y canolbarth (Y Drenewydd a Machynlleth), y de-orllewin (Cil-maen a Chaerfyrddin) a'r de (Caerdydd). Cynigiwyd gweithdai ar-lein drwy fisoedd Hydref a Thachwedd yn ystod y dydd (10am, 12.30pm) a'r gyda'r nos 5pm a 7pm). Cafwyd presenoldeb uwch yn y gweithdai ar-lein nag yn y gweithdai wyneb yn wyneb.

**Tabl 3.1: Presenoldeb mewn gweithdai yn ôl math o weithdy**

| | Mynychwyr | Canran |
|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb, yn ystod y dydd | 3 | 4% |
| Wyneb yn wyneb, gyda'r nos | 4 | 6% |
| Ar-lein, yn ystod y dydd | 40 | 59% |
| Ar-lein, gyda'r nos | 21 | 31% |
| **Cyfanswm** | **68** | **100%** |

Ffynhonnell: Data gweithdai UWTSD.

Roedd cyfranogwyr yn y gweithdai yn cynnig cynrychiolaeth dda o randdeiliaid allweddol ar draws y sector. O'r 104 a gofrestrodd gyda'r gweithdai, aeth 68 iddynt a chymryd rhan yn y trafodaethau. Mae hyn yn gyfwerth â chyfran ymateb o 66%. Awgryma Cohen, Manion a Morrison (2000: 263) mai cyfradd ymateb nodweddiadol fyddai 40%, gyda photensial o godi gydag anogaeth ddilynol. Cysylltodd y prif ymchwilydd â'r rheini a oedd wedi cofrestru gyda gweithdy ond na wnaeth eu mynychu, gan gynnig iddynt fynd i weithdy arall yn ddiweddarach.

O'r cyfranogwyr, roedd 49% yn ymarferwyr (18 meithrinfa ddydd/cylch meithrin/gofal sesiynol; 7 o warchodwyr plant; 8 o athrawon ysgol). Daeth cyfranogwyr eraill o sefydliadau cymorth neu reoleiddio, gyda'r cyfrannau uchaf o awdurdodau lleol (28%) a sefydliadau ambarél (15%) gan gynnwys y Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY), Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA), Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru.

Cafodd trafodaethau gweithdai eu cofnodi, eu trawsgrifio ac wedyn eu dadansodd yn dilyn dadansoddiad didynnu gan ddefnyddio codau priori a chodau agored i ddarganfod unrhyw themâu eraill a oedd yn dod i'r amlwg.

## Canfyddiadau'r gweithdai

Cafodd y canfyddiadau eu trefnu o dan bum thema allweddol: agweddau, dysgu proffesiynol, rhwystrau a heriau, cwestiynau a phryderon, a themau eraill a ddaeth i'r amlwg.

## Agweddau

Y canfyddiadau cyffredinol gan yr holl randdeiliaid oedd bod y trefniadau asesu drafft yn gadarnhaol, gyda phwyslais cryf ar blant ac addysgeg. Y farn oedd eu bod wedi eu hysgrifennu'n glir a'u bod yn gweld y plentyn mewn ffordd gyfannol, yn hytrach na gwahanu datblygiad plentyn yn flychau fel roedd arferiad canfyddedig y Cyfnod Sylfaen. Nodwyd ei fod yn disgrifio cynnydd yn dda.

Roedd yn ymddangos bod rhanddeiliaid yn cofleidio'r syniad o symud oddi wrth ymarferion ticio blychau at gysylltu â phlant ac arsylwi arnynt yn y fan a'r lle. Ymddengys fod hyn wedi dylanwadu ar ymarferwyr yn y lleoliad, yn eu rhyddhau i ryngweithio ac arsylwi ar blant wrth chwarae'n naturiol.

Mae adborth gan y rheini mewn rolau cefnogi megis athrawon ymgynghorol yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd roedd y dull o ganolbwyntio ar y plentyn ac o ymwreiddio sylw penodol i lesiant yn cael eu croesawu. Gwnaed sylwadau yn awgrymu bod rhai darparwyr yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol yn hytrach na baich – diddorol yw nodi yma eu bod yn dweud 'rhai' ond nid pob un.

## Dysgu proffesiynol

Roedd awgrymiadau ar gyfer gweithredu pellach a rhoi drafft terfynol y trefniadau asesu ar waith yn nodi meysydd allweddol ar gyfer dysgu proffesiynol megis arsylwi, datblygiad plant a chynllunio, yn ogystal ag awydd am ddysgu parhaus gan gymheiriaid a chymorth ar draws y sector.

Roedd mynediad at ddysgu proffesiynol parhaus, a'r graddau'r oedd ar gael, yn cael ei nodi fel problem. Roedd consensws mewn llawer o weithdai fod rhannu arferion da yn bwysig.

Roedd cydnabyddiaeth mewn llawer o weithdai fod y gweithredu presennol yn 'daith' neu'n 'waith ar y gweill' sy'n esblygu. Felly, gall fod heriau yn ogystal â chyfleoedd wrth weithredu'r newid hwn, ac felly nodwyd pecyn hyfforddi gan bob rhanddeiliaid i helpu lleoliadau o fodloni gofynion fel adnodd defnyddiol posibl.

## Rhwystrau a heriau

Nodwyd rhwystrau a heriau tebyg ym mhob gweithdy. Yn bennaf, roedd y rhain yn gysylltiedig â heriau cyffredinol y sector megis amser a chyllid, yn enwedig amser i ddarllen a deall y dogfennau trefniadau asesu a'r dysgu proffesiynol sydd ynglŷn â hwy.

Cafodd hyder ymarferwyr i ymdrin ag addysgeg fwy ymreolus a'r angen i gryfhau a datblygu sgiliau mewn meysydd allweddol megis arsylwi a chynllunio eu nodi fel heriau allweddol.

Roedd anghysondeb negeseuon gan yr holl sefydliadau sy'n cefnogi gweithredu ac arolygu'r trefniadau asesu yn rhwystr allweddol a drafodwyd mewn nifer o weithdai.

## Cwestiynau a phryderon

Roedd consensws ar draws amryw o weithdai y byddai gweithredu'r trefniadau asesu yn effeithiol yn gofyn am gymorth a chanllawiau a oedd yn cadw ethos gyfannol y cwricwlwm, ac felly'n osgoi dulliau blychau ticio neu restrau ticio wrth ymarfer. Felly, roedd cwestiynau a phryderon a godwyd yn gysylltiedig â sut y gellid cefnogi ymarferwyr yn gyson, a sut y gellir gweithredu'r arfer o ddogfennu dysgu a chynnydd yn effeithiol gan ymarferwyr.

Roedd cytundeb cyffredinol fod angen i gymorth ymgynghorol awdurdodau lleol, cyrff arolygiaethau a rhanddeiliaid eraill ddarparu cymorth yn unol ag ethos y cwricwlwm, ac yn unol â'i gilydd, gan ganiatáu ar gyfer dogfennaeth asesiadau sy'n adlewyrchu'r trefniadau asesu.

Fe wnaeth y drafodaeth hefyd amlygu pryderon ynghylch y sector plentyndod ac addysg gynnar o safbwynt y gweithlu a sut y caiff ei gefnogi a'i werthfawrogi, yn ogystal â'r cyfyngiadau ar weithredu newidiadau pan fo diffyg ymarferwyr. Trafodwyd pryderon hefyd ynghylch y diffyg cysondeb rhwng gwahanol rannau'r sector plentyndod ac addysg gynnar a'r effaith o ganlyniad i hynny ar y pontio rhwng y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir.

Yn ogystal, roedd pryderon penodol yn ymwneud â'r dogfennau asesu ac olrhain cynnydd.

Roedd pryderon hefyd ynghylch diffyg eglurder y trefniadau asesu o safbwynt asesu cyfrwng Cymraeg.

## Themâu eraill a ddaeth i'r amlwg

Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg yn dangos y gallai'r newidiadau i'r cwricwlwm presennol a'r trefniadau asesu roi caniatâd i ymarferwyr ddarparu dysg sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar y plentyn. Fodd bynnag, nodwyd yr angen am rannu arferion da a chanllawiau ar draws y sector fel rhywbeth pwysig wrth fynd ati'n effeithiol i weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

Rhoddwyd rhyfwaint o ystyriaeth i'r heriau a'r gofynion o safbwynt cysoni arferion ar draws y sector a'r goblygiadau y gall hyn ei gael wrth helpu pontio rhwng lleoliadau ar draws gwahanol sectorau.

Trafodwyd hefyd absenoldeb llais ymarferwyr wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Ystyriwyd 'Cynefin' hefyd mewn un grŵp ffocws a goblygiadau'r cysyniad hwn wrth ymarfer ac felly i drefniadau asesu.

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol yn bennaf tuag at y trefniadau asesu ac yn fwy cyffredinol at y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Awgrymwyd mân-addasiadau i'r trefniadau asesu ac roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwneud y cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru yn fwy gweladwy o fewn y ddogfen er mwyn cefnogi gwell perthynas waith a phontio rhwng y sector nas cynhelir ac ysgolion.

Galwyd hefyd am gysondeb disgwyliadau gan gyrff rheoleiddio a sefydliadau cymorth.

# 4 DADANSODDIAD THEMATIG CYFUNOL

Trwy ystyried tystiolaeth o'r ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai, cyflawnwyd dadansoddiad thematig cyfunol i gymharu a chyferbynnu'r canfyddiadau. Mae'n bwysig cydnabod y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai. Er enghraifft, roedd cwestiynau ac atebion yr ymgynghoriad yn llawer mwy penodol ac yn canolbwyntio ar y cwestiwn, tra bod y data o'r gweithdai yn cynnwys amrywiaeth helaethach o dystiolaeth o sgyrsiau a arweiniwyd gan themâu'r canllawiau pwnc.

## Agweddau tuag at drefniadau asesu

Mae data o'r ymgynghoriad ar-lein yn dangos agweddau cyffredinol gadarnhaol tuag at y trefniadau drafft. Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (ac mewn rhai achosion dros dri chwarter) atebion cadarnhaol i amrywiaeth o gwestiynau. Yn gyffredinol, tua chwarter, neu lai, a roddodd atebion negyddol.

Yn aml, rhoddodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad atebion ansoddol a oedd yn cynnwys agweddau a oedd i raddau'n groes i'w hymateb meintiol. Felly, gallai ymatebydd fod wedi cytuno gyda cwestiwn ymgynghori ac wedyn rhoi esboniad a oedd yn cynnwys cytundeb a phryderon.

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod y trefniadau yn glir wrth amlinellu eu pwrpas ar gyfer asesu parhaus lle mae casglu gwybodaeth yn digwydd yn barhaus, gan symud oddi wrth ganolbwyntio ar bwyntiau asesu ar wahân ac annibynnol. Roedd thema a welwyd drwy'r holl ymateb i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar drefn yr wybodaeth a ddarperir yn y tablau, gyda llawer yn awgrymu bod y rhaid yn gwneud yr wybodaeth yn haws ei ddeall gan y byddai ymarferwyr yn gallu tynnu gwybodaeth allweddol allan yn gyflym.

Bu'r ymgynghoriad ar-lein yn archwilio agweddau ymatebwyr at effeithiau posibl ar y Gymraeg o ganlyniad i'r trefniadau hyn. Rhoddwyd ymatebion, tebyg i'r rheini yn y gweithdai, nad oedd y trefniadau'n cyfeirio digon, nac yn ddiamwys a phenodol, at y Gymraeg. Canfu'r ddau ddull ymchwil fod rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai dryswch o ran asesu pan fo iaith y lleoliad yn wahanol i iaith cartref y plentyn. Fodd bynnag, derbyniwyd mwy o safbwyntiau'n ymwneud â'r Gymraeg yn yr ymgynghoriad nag yn y gweithdai ynghylch:

- Diffyg llwybrau datblygu sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg.
- Barn y gallai rhieni a gofalwyr fod ag agweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg gan nad yw'r trefniadau newydd yn canolbwyntio ar ddiffygion.

Mynegwyd barnau trwy'r ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai fod y canolbwyntio ar gynnwys amryw o randdeiliaid yn symudiad cadarnhaol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ar-lein ac yn y gweithdai gan ymatebwyr a oedd yn teimlo na phwysleisir digon mai cyfrifoldeb ysgolion yw trefnu rhwydweithio proffesiynol. Roedd y gweithdai hefyd yn tynnu sylw at gyndynrwydd posibl yn y sector preifat i rwydweithio gyda lleoliadau sy'n cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn ei gilydd.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad a chyfranogwyr y gweithdai yn pwysleisio bod y symud at gynllunio, arsylwi ac asesu yn y fan a'r lle yn newid cadarnhaol. Fodd bynnag, teimlent fod y newid hwn yn gofyn am amser, hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr i'w ymwreiddio yn eu harferion rheolaidd.

Soniodd cyfranogwyr gweithdai am newidiadau a oedd eisoes wedi cael eu gwneud a'r arferion presennol mewn ymateb i'r trefniadau drafft. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr effaith cadarnhaol mae'r trefniadau wedi eu cael ar blant, gan eu galluogi i chwarae heb darfu arnynt.
- Ymarferwyr yn gallu bod yn fwy creadigol yn sgil symud oddi wrth asesiadau sy'n troi o gwmpas tasgau.
- Gwahaniaethau wrth ddehongli'r dogfennau ledled Cymru ac mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys dogfennau sydd wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer adrodd cynnydd.
- Ymateb cadarnhaol gan rieni a gofalwyr i arferion newydd mewn asesu sydd eisoes ar waith a chynnwys eu profiadau ac arsylwadau gartref.

Caiff ymatebion eraill sy'n archwilio rhwystrau a heriau a chynnig awgrymiadau i wella'r trefniadau eu crynhoi yn yr adrannau canlynol.

## Anghenion dysgu proffesiynol

Cafodd amrywiaeth o anghenon dysgu proffesiynol eu nodi trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai. Yn gyffredinol, roedd galwadau am ddysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth a hyder ymarferwyr ar draws y sector. Nodwyd hyn fel rhywbeth pwysig i sicrhau cysondeb yn genedlaethol a chefnogi ymarferwyr newydd a llai profiadol.

Rodd yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai yn cyfeirio at anghenion proffesiynol yn ymwneud ag arsylwi. Roedd consensws y byddai ar ymarferwyr angen hyfforddiant ychwanegol i gefnogi eu dealltwriaeth o'r rhesymau dros arsylwi, a sut maent yn gysylltiedig â llwybrau datblygu. Roedd nifer y sylwadau eraill yn ymwneud â'r angen a awgrymwyd i roi cyfle i ymarferwyr ddysgu sut i arsylwi'n effeithiol ar blant, gan gynnwys mwy o eglurder ar raddau'r diddordeb a'r rhyngweithio yn ystod yr arsylwi hwn, a sut i ffurfio'r camau nesaf yn dilyn yr arsylwi. Crybwyllwyd hyfforddiant hefyd i addysgu dulliau i ymaferwyr integreiddio arsylwadau ag arferion o ddydd i ddydd. Cyfeiriwyd hefyd at sicrhau bod ymarferwyr yn derbyn cymorth dilynol, yn eu lleoliad, ar ôl unrhyw hyfforddiant allanol.

Yn gysylltiedig ag arsylwi, mynegodd rhai ymatebwyr y gall fod ar ymarferwyr angen cymorth gyda thechnegau cynllunio hefyd. Codwyd pryderon drwy'r holl ymgynghori ar-lein a gweithdai y gallai lleoliadau ddefnyddio'r tablau yn y trefniadau asesu drafft fel rhestri dicio i helpu cynllunio. Codwyd pryderon ychwanegol yn y gweithdai ynghylch gwaith papur a oedd eisoes wedi cael eu greu mewn rhai lleoliadau ar gyfer cynllunio, sy'n ymddangos fel pe bai'n mynd yn erbyn natur gyfannol y trefniadau asesu drafft. Felly, roedd unigolion yn mynegi'r angen am gysondeb mewn dealltwriaeth ynghylch cynllunio.

Gwnaed awgrymiadau i ddysgu proffesiynol gael ei gyflwyno trwy ddull cenedlaethol. Mynegwyd pryderon yn y gweithdai a'r ymgynghoriad fod risg o amrywiaeth ledled Cymru yn y cyflwyno a'r ddealltwriaeth oni cheir dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol. Yn y gweithdai, roedd ychydig o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau cenedlaethol o ymrwymiad i hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn cynyddu hyder yn y dulliau.

Gwnaed ychydig o awgrymiadau hefyd i ehangu dysgu proffesiynol i leoliadau ysgol gynradd i gael dealltwriaeth ystyrlon drwy'r holl sector i gefnogi plant wrth bontio i leoliadau newydd.

Nodwyd yn yr ymgynghoriad ar-lein fod egwyddorion cynnydd yn gysyniad newydd felly, byddai ar leoliadau angen dealltwriaeth drylwyr o'r rhain er mwyn gallu gweithredu'r trefniadau asesu drafft. Adleisiwyd hyn yn y gweithdai, ynghyd â'r farn y byddai ar staff llai profiadol a newydd angen mwy o gymorth i ddeall yr egwyddorion hyn er mwyn integreiddio'r trefniadau asesu yn effeithiol.

Mynegwyd safbwyntiau croes i'w gilydd yn yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai ynghylch y dull o gyflwyno dysgu proffesiynol. Roedd rhai'n dangos bod yn well ganddynt i ddysgu ymarferol ddigwydd wyneb yn wyneb, tra bod eraill yn hoffi'r hyblygrwydd roedd dysgu rhithiol yn ei gynnig. Roedd hyn yn gysylltiedig hefyd â'r gwahaniaethau mewn model cyflwyno a awgrymwyd, gyda rhai yn yr ymgynghoriad ar-lein yn argymell modiwlau ar-lein Hwb. Roedd awgrymiadau gan weithdai yn cynnwys rhannu enghreifftiau o arferion da a datblygu gwefan ryngweithiol a/neu ap i helpu gweithredu hyn.

Roedd ychydig o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein yn pwysleisio'r angen am i ddysgu proffesiynol ganolbwyntio ar agwedd deialog proffesiynol y trefniadau. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn broses newydd i lawer o leoliadau. Teimlai ymatebwyr y byddai ar ymarferwyr angen cymorth pellach i ymwneud yn effeithiol â'r ddeialog hon.

Roedd rhwystrau rhag ymwneud mewn dysgu proffesiynol yn cael eu nodi'n aml yn y gweithdai, gyda rhai cyfeiradau atynt yn yr ymgynghoriad ar-lein. Roedd rhwystrau'n cynnwys yr angen am gymorth ariannol i leoliadau ryddhau staff, diffyg staff cyflenwi (a waethygir gan anawsterau recriwtio ar draws y sector), a staff heb fod â'r amser i fynychu. Y teimlad oedd y byddai gan staff lwyth gwaith trwm wrth weithredu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu, gan ei gwneud yn fwy anodd fyth i ryddhau staff, ac y gall staff hefyd fod yn llai parod i fynychu hyfforddiant ar ôl shifftiau hir.

Bu cyfranogwyr gweithdai'n archwilio'r elfennau canlynol hefyd mewn perthynas â dysgu proffesiynol:

- Cydweithrediad cymheiriaid wrth gefnogi.
- Yr angen am hyfforddiant i ymarferwyr di-Gymraeg.
- Datblygu sgiliau meddwl ymarferwyr.
- Gallai swm ac amlder dysgu proffesiynol fod yn rhwystr.
- Natur yr hyfforddiant a pha sefydliad(au) ddylai fod yn ei gyflwyno.

## Rhwystrau a heriau

Sylwadau a welwyd yn gyffredin drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein oedd y gallai'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen asesu drafft fod yn rhy gymhleth neu'n cynnwys gormod o jargon i rai ymarferwyr, gan ei gwneud yn anodd iddynt ei deall a'i haddasu ar gyfer eu gwaith heb eglurder, canllawiau neu hyfforddiant pellach. Gwnaed cymariaethau yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein â dogfennau diweddar eraill, gan gynnwys y cwricwlwm newydd i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gan awgrymu bod y ddogfen yn llai dealladwy, yn enwedig i ymarferwyr dibrofiad. Fodd bynnag, roedd sylwadau a rannwyd yn y gweithdai yn awgrymu bod yr iaith yn gyson ar y cyfan.

Barn yn yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai oedd y byddai ffeithluniau yn gwneud y ddogfen yn haws ei deall.

Dywedodd ymatebwyr fod lleoliadau'n wynebu cyfyngiadau sylweddol ar amser. Yn benodol, amlygwyd deialog broffesiynol gan ymatebwyr fel rhywbeth a oedd yn gofyn am fuddsoddiad amser i staff ym mhob lleoliad. Pwysleisiodd ymatebwyr fod oriau gwaith yn wahanol mewn lleoliadau nas cynhelir i'r hyn ydynt mewn ysgolion, gan ddweud y byddai'n anodd trefnu amser addas ar gyfer deialog broffesiynol, yn enwedig gyda lleoliadau meithrin yn aml yn methu â

rhyddhau staff yn ystod oriau gwaith. Ar y llaw arall, roedd sylwadau ynglŷn â chyfyngiadau amser yn y gweithdai'n ymwneud â'r:

- Amser y byddai'n ei gymryd i staff lleoliad ddarllen a deall y canllawiau, hyd yn oed cyn lledaenu'r wybodaeth i staff.
- Amser y byddai ei angen ar gyfer arsylwi ac ysgrifennu.

Tynnwyd sylw at gysondeb negeseuon a dulliau ar draws lleoliadau fel heriau posibl. Yn yr ymgynghoriad ar-lein, dywedodd ymatebwyr fod angen i'r asesiadau drafft gael eu rhannu gael eu rhannu gyda lleoliadau ysgol, neu fel arall y byddai diffyg dealltwriaeth a'r potensial am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb i ysgolion drefnu deialog broffesiynol rhwng rhanddeiliaid. Roedd sylwadau a rannwyd yn y gweithdai yn canolbwyntio ar gysondeb negeseuon gan sefydliadau cefnogi. Roedd pryderon y gallai gwahaniaethau barn ar y trefniadau drafft achosi negeseuon cymysg i leoliadau a dryswch ynghylch pa arferion y dylent eu gweithredu.

Yn yr ymgynghoriad ar-lein, gwnaed sywladau gan rai ymatebwyr fod lefel profiad ymarferwyr yn ffactor amlwg yn ymwneud â'u hyder wrth weithredu'r newidiadau asesu. Roeddent yn awgrymu mai ymarferwyr llai profiadol fyddai'r rhai lleiaf hyderus wrth weithredu newidiadau ac felly byddent angen mwy o gymorth a chanllawiau. Gwnaed rhai cyfeiriadau at staff mwy profiadol drwy'r ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai, gan y gallai'r ymarferwyr hyn ei chael yn anodd dygymod â'r newid yn y dull asesu oherwydd ei fod yn gofyn am newid meddylfryd. Felly, gallai fod yn fwy anodd iddynt gan fod eu harferion wedi ymwreiddio'n fwy.

Byddai llwyddiant y trefniadau newydd hyn, yn ôl ymatebion i'r ymgynghoriad a chyfranogwyr gweithdai, yn dibynnu ar raddau'r ddealltwriaeth drwy'r holl sector. Gwnaed sylwadau y byddai dealltwriaeth ymarferwyr mewn rhai achosion yn ddibynnol ar ddealltwriaeth arweinydd eu lleoliad, a fyddai'n lledaenu'r wybodaeth iddynt. Roedd sylwadau yn y gweithdai yn ymestyn hefyd at wybodaeth a dealltwriaeth rhai mewn swyddi cefnogi a chynghori. Soniwyd yn benodol hefyd am gefndir a chymwysterau proffesiynol ymgynghorwyr ac arolygwyr, ac y gallai'r gwahaniaethau rhyngynt a chefndiroedd a chymwysterau ymarferwyr blynyddoedd cynnar achosi annifyrrwch.

## Cwestiynau a phryderon

Mynegwyd pryderon trwy'r ymgynghoriad ar-lein ac yn ystod y gweithdai y byddai lleoliadau yn defnyddio'r tablau a ddarperir yn y trefniadau asesu drafft fel rhestr dicio. Teimlai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein nad oedd yn ddigon clir fod y tablau'n rhoi enghreifftiau i weithio ohonynt, ac na'u bwriedir fel rhestr ddiffiniadol. Yn yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai, roedd ymatebwyr yn mynegi eu pryderon y byddai ymarferwyr a lleoliadau yn creu rhestr dicio ar gyfer asesiadau, nad yw'n cyfweddu â dull mwy cyfannol y trefniadau asesu newydd.

Roedd trafodaethau yn y gweithdai a'r ymatebion a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad ar-lein yn awgrymu bod rhai ymatebwyr yn ddryslyd ynghylch sut mae'r trefniadau newydd yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Galwyd am gysylltiadau mwy amlwg a phenodol. Roedd pryderon penodol na fyddai ysgolion, pe na bai ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a drosglwyddir iddynt pan fo plentyn yn pontio nac yn defnyddio'r wybodaeth honno'n effeithiol. Yn y gweithdai roedd trafodaethau hefyd y gallai meithrinfeydd ysgolion deimlo'u bod yn cael eu hallgáu rhag mabwysiadu'r un arferion oherwydd bod teitl y ddogfen yn cyfeirio at 'nas cynhelir'.

Roedd trafodaethau yn y gweithdai yn cynnwys heriau mae'r sector yn eu hwynebu fel cyfanrwydd, megis recriwtio, colli arweinwyr profiadol yn ystod y pandemig COVID-19 a'r graddau

uchel o gyfrifoldeb sydd gan ymarferwyr. Fodd bynnag, yn yr ymgynghoriad ar-lein, dim ond un o'r pryderon a grybwyllwyd oedd recriwtio. Roedd ymatebwyr yn awgrymu y byddai ar nifer uwch o staff angen hyfforddiant i ddeall a gweithredu'r newidiadau yn y lleoliadau, law yn llaw â mynychu unrhyw ddysgu a deialog broffesiynol yn allanol.

Roedd consensws yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein ac yn y gweithdai nad yw'r trefniadau drafft wedi rhoi eglurder ynghylch gofynion iaith asesu ar gyfer plant dwyieithog neu amlieithog. Roedd galwadau am fwy o eglurder a chymorth ychwanegol i allu cyfleu canfyddiadau asesiadau i rieni. Er enghraifft, pe bai plentyn yn cael ei asesu yn y Gymraeg ond yn siarad Saesneg gartref, efallai na fydd canfyddiadau'r asesu yn cynrychioli'n llawn allu'r plentyn yn y Saesneg. Soniwyd yn y gweithdai hefyd y byddai angen mwy o eglurder ar gyfer plant nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith eu cartrefi.

Cafodd angen am eglurder pellach o safbwynt camau nesaf plant a chysylltiadau â cham cynnydd 1 ei grybwyll yn fyr yn yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai. Yn yr ymgynghoriad ar-lein, codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau ddylid eu defnyddio pan fo gan leoliad blant o dan 3 oed.

Roedd cwestiynau a phryderon eraill a godwyd yn y gweithdai yn cynnwys:

- Galwadau am eglurder ynghylch beth fyddai arolygiaethau yn chwilio amdano yn ymarferol.
- Awgrymiadau ar gyfer digideiddio trwy ddefnyddio ap, i gyfleu canfyddiadau asesu i rieni.

## Themâu eraill a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdai

Roedd themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdai yn cynnwys:

- Y teimlad fod y dull newydd yn rhoi caniatâd i ymarferwyr ymwneud â dysgu ar sail chwarae.
- Cyfranogwyr gweithdai yn rhannu'r arferion da sydd eisoes ar waith ac yn mynegi awydd am barhau rhannu arferion i gefnogi lleoliadau trwy eu taith o weithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.
- Awgrymiadau am yr angen i gysoni canllawiau ar draws y sector blynyddoedd cynnar, er mwyn osgoi darnio.
- Sylwadau yn amlygu pwysirwydd Cynefin ar draws lleoliadau.

## Sylwadau penodol am y Ddogfen

Roedd trefn y tablau yn y ddogfen yn cael ei grybwyll yn rheolaidd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein ac yn y gweithdai. Mynegwyd dryswch ynghylch pam nad oedd gan lythrennedd a rhifedd ond 2 golofn, tra bod gan eraill 3. Yn gyffredinol, roedd 3 yn cael ei ffafrio. Codwyd pryderon hefyd ynghylch sut y gallai'r tablau hyn fod berthnasol i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheini sy'n fwy abl a dawnus (MAT), gan na chyfeirir yn benodol atynt ac y gallant fod uwchlaw, neu islaw, y disgwyliadau a awgrymir.

Yn yr ymgynghoriad ar-lein a'r gweithdai, gwnaed rhai cymariaethau ynghylch trefn y ddogfen, a threfn y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir.

Roedd sylwadau'n awgrymu bod yn well ganddynt drefn dogfen y cwricwlwm gan mai'r teimlad oedd ei fod yn fwy deniadol a dealladwy. Mae'r sylwadau hyn yn gysylltiedig ag awgrymiadau blaenorol ynghylch cynnwys ffeithluniau i helpu eu gwneud yn fwy dealladwy.

Yn y gweithdai, roedd trafodaethau ynghylch geiriau newydd a oedd wedi cael eu cynnwys y trefniadau a allai achosi camddealltwriaeth. Roedd enghreifftiau yn cynnwys ‘dilys’, ‘pwrpasol’ a ‘sylwi’.